



LLAWLYFR BLWYDDYN 12 – MEDI 2019



CYNNWYS

	Tudalen
Gair gan y Pennaeth	2
Croeso i Addysg ôl 16	3
Personél sy'n ymwneud ag Addysg ôl 16	4
Cwricwlwm ôl 16	5
Cyflwyniad	5
Amser addysgu ac amser dysgu	5
Strwythur y Cyrsiau	5
Faint o bynciau a ddylech eu hastudio ym Mlwyddyn 12?	6
Tystysgrif Her Sgiliau Uwch (Bagloriaeth Cymru)	7
Consortïwm Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn	8
Pynciau Lefel Uwch ac Uwch Gyfrannol a gynigir ar y cyd gydag Ysgolion eraill Ynys Môn a Choleg Menai	9
Pwyntiau UCAS	10
Cyfoethogi	11
Profiad Gwaith	11
Gwaith Gwirfoddol / Magu Profiad Perthnasol	11
Adnoddau	11
Y Ganolfan Adnoddau/Llyfrgell	11
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	11
Addysg a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd	12
Lles	12
Lwfans Cynhالياeth Addysg	12
Rheolau	12
Breintiau	12
Gwisg Ysgol	12
Y Cam Nesaf	13
Gwybodaeth a Chyngor ynglŷn â Mynediad i Addysg Uwch	13
Tabl Colofnau Dewisiadau Blwyddyn 12	14
Disgrifiadau Pynciau	15 - 48

GAIR GAN Y PENNAETH

Mae'r prospectws hwn yn amlinellu'r ddarpariaeth eang a gynigir yn y Chweched Dosbarth yn Ysgol David Hughes. Rydym yn hynod falch o'n myfyrwyr Chweched Dosbarth a'u llwyddiannau cyson yn academiaidd yn ogystal â'u datblygiad personal.

Mae addysgu o'r safon uchaf ynghyd a'r pwyslais ar ddysgu effeithiol wedi sicrhau canlyniadau rhagorol mewn arholiadau Safon Uwch ac UG. O gyfuno hynny gyda gofal, arweiniad a chefnogaeth arbennig mae myfyrwyr yn gweithio'n galed, mwynhau eu dysgu ac yn cael eu derbyn ar gyrsiau prifysgol a gyrfaoedd o'u dewis.

Mae myfyrwyr Ysgol David Hughes yn gweithio yn arbennig o dda gyda charfan o athrawon ymroddedig sydd â phrofiad ac arbenigedd eang wedi ei feithrin dros nifer o flynyddoedd mewn ystod o bynciau. Rydym yn cynnig cwricwlwm eang ac amrywiol yn cynnwys cyrsiau Safon Uwch yn ogystal â rhai galwedigaethol, rhai mewn cydweithrediad gyda phartneriaid lleol.

Mae gennym adnoddau rhagorol ar draws yr ysgol yn ogystal ag yn y Ganolfan Chweched , ac mae hyn yn creu amgylchedd ddysgu gadarnhaol a chefnogol lle mae'r myfyrwyr yn ffynnu.

Rydym yn dymuno i'n myfyrwyr fod yn falch o fod yn rhan o gymuned Ysgol David Hughes a'u bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn perthyn. Dymunwn hefyd eu cefnogi i fod yn ddysgwyr annibynnol ac iddynt ddeall fod unrhyw beth yn bosib o ymrwymo i waith caled ac ymdrech gyson.

Drwy ymuno â'r Chweched Dosbarth yn Ysgol David Hughes fyddwn yn eich cyfeirio ar lwybr tuag at ddyfodol llwyddiannus a chyffrous.

CROESO I ADDYSG ÔL 16

Pwrpas Addysg ôl 16 yw eich paratoi chi, fel unigolyn, ar gyfer dyfodol sydd â phwrpas iddo. Gobeithiwn eich gweld yn aeddfedu yn academaidd, yn bersonol ac yn gymdeithasol yn ystod eich gyrfa ym Mlynnyddoedd 12 + 13.

Wrth gwrs, fe fydd amrywiaeth eang yn eich galluoedd cynhenid, eich cymwysterau, eich anghenion a'ch diddordebau ond ceisiwn ar bob achlysur ystyried beth sydd orau i chi fel unigolyn o fewn eich cwrs astudiaeth. Mae'n bwysig eich bod chi eich hunan yn gwneud yr un peth.

Mae eich cymhelliant chi yn awr yn gwbl hanfodol i'ch llwyddiant i'r dyfodol. Pa bynciau ydych chi'n eu mwynhau? Oes gennych nôd arbennig? Pa mor benderfynol ydych chi o gyrraedd eich nôd? Ydych chi'n fodlon aberthu i'w gyrraedd? Neu ydych chi'n cael eich chwythu gan bob gwynt, yn newid cyfeiriad yn aml, yn ansicr eich meddwl? Ydych chi'n dychwelyd i'r ysgol yn hollol ddiamcan neu am fod pwysau allanol arnoch i wneud hynny? Ystyriwch o ddifrif yn awr. Peidiwch â dewis cwrs am fod gennych ffrind yn ei ddilyn. Ystyriwch yn ofalus beth sydd orau i chi. Ar hyn o bryd 'rydych yn sefyll ar drothwy'r dyfodol a bydd eich penderfyniad heddiw yn dylanwadu'n gryf iawn ar eich gyrfa yfory.

Gobeithiwn y bydd y wybodaeth a gesglwch o ddarllen y llyfryn hwn yn gymorth i chi gychwyn ar daith bwrpasol a llwyddiannus i'r dyfodol.

PRIF DDISGYBLION 2018-2019



Llinos Williams



Gwyn Thornton



Adam Kempton



Iestyn Jones



Guto Tegid



Lewis Davies

PERSONÉL SY'N YMWNEUD AG ADDYSG ÔL 16

PERSONNEL INVOLVED WITH 16+ EDUCATION



Pennaeth Blwyddyn 12 a 13

Head of Years 12 and 13

Mrs Manon Davies



Dirprwy Bennaeth Blwyddyn 12 a 13

Deputy Head of Years 12 and 13

Mrs Delyth Williams



Pennaeth Cynorthwyol â chyfrifoldeb penodol am Flwyddyn 12 a 13
Assistant Headteacher with specific responsibility for Years 12 and 13

Mrs Meinir Davies



Gyrfaoedd/Careers

Mrs Susan Bracegirdle



Tiwtoriaid/Tutors

Mr Daron Harris

Mrs Helen Hale

Miss Sally A Hughes

Mrs Christina Thatcher

Mrs Helen Bebb

Mrs Sarah Parry

Mr Andrew Sharrock

Mrs Mez Saywood-Peyrasse

Mrs Mari Rhun Thomas

Mrs E Angharad Harris



Anogwr Dysgu/Learning Coach

Mrs Arianwen Owen



CYFLWYNIAD

Mae cwricwlwm a chymwysterau Safon Uwch, Uwch Gyfrannol a Chyrsiau Cymhwysol Safon Uwch ynghyd â'r Dystysgrif Her Sgiliau (BAC) wedi eu cynllunio'n ofalus er mwyn i fyfyrwyr fedru astudio amrywiaeth eang o bynciau ar draws rhaglen dwy flynedd ac i ddatblygu sgiliau gwerthfawr ar gyfer addysg uwch a chyflogaeth.

Mae'r cymhwyster Uwch Gyfrannol yn darparu cwrs sydd wedi ei anelu at y safon y bydd myfyrwyr fel rheol yn ei chyrraedd ar ôl astudio am flwyddyn yn y chweched ddsbarth. Mae wedi ei gynllunio i gynnig gwell dilyniant ar ôl TGAU ac i annog myfyrwyr i ddewis ystod ehangach o bynciau.

AMSER ADDYSGU AC AMSER DYSGU

Amser addysgu yw'r amser lle y byddwch mewn gwersi, hynny yw, mewn cysylltiad uniongyrchol â'ch athro/athrawes. Amser dysgu ar y llaw arall yw'r amser pryd y disgwylir i chi fod yn gweithio ac yn astudio ar eich pen eich hun. Fe fydd eich athrawon yn gosod amrywiaeth o asesiadau/traethodau/tasgau i chi i'w gwneud. Fe ddylech dreulio rhan helaeth o'ch amser digyswllt yn gweithio yn y llyfrgell, yn yr ystafell dawel neu ar y cyfrifiaduron. Mae'n hollbwysig eich bod yn meithrin a datblygu agwedd aeddfed a chyfrifol tuag at eich gwaith. Eich cyfrifoldeb chi yw rheoli eich amser a sicrhau eich bod yn cwblhau eich gwaith ar amser.

STRWYTHUR Y CYRSIAU

1. Cyrsiau Uwch Gyfrannol Ac Uwch

Mae cyrsiau Safon Uwch wedi eu rhannu i unedau. Mae'r unedau cyntaf yn rhoi cymhwyster Uwch Gyfrannol (UG). Gelwir yr unedau arall yn U2. Bydd unedau UG ac unedau U2 yn rhoi Safon Uwch llawn.

Fel arfer astudir yr unedau UG ym Mlwyddyn 12 a'r unedau U2 ym Mlwyddyn 13. Bydd asesiad yr unedau UG ychydig yn haws ac yn cynnwys cwestiynau strwythuredig a chwestiynau yn gofyn am atebion byr. Ar y llaw arall fe fydd asesiad yr unedau U2, sef ail hanner y cwrs Safon Uwch llawn, yn fwy anodd ac yn cynnwys cwestiynau sy'n gofyn am atebion estynedig a chwestiynau synoptig yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth ehangach ar draws y cwrs cyfan.

Gellir sefyll arholiadau diwedd uned ym mis Mehefin ym Mlynnyddoedd 12 a 13. Nid yw'n bosib astudio unedau U2 heb astudio a phasio unedau UG yn ogystal.

Mae'n ofynnol bod pob myfyriwr yn pasio eu harholiadau Uwch Gyfrannol er mwyn dychwelyd i Flwyddyn 13.

2. Cyrsiau BTEC Lefel 3

Cynigir sawl pwnc BTEC Lefel 3 Diploma Atodol ar y cyd gydag ysgolion eraill Ynys Môn a Choleg Menai. Mae cwrs BTEC Lefel 3 Diploma Atodol yn cyfateb i un Lefel A. Bydd astudiaeth am un flwyddyn yn unig yn rhoi mynediad i Dystysgrif BTEC Lefel 3 sydd yn cyfateb i un pwnc uwch gyfrannol. Asesir y cyrsiau drwy bortffolio o waith cwrs, ni fydd arholiad. Mae gradd Anrhydedd mewn cwrs BTEC Lefel 3 Diploma Atodol yn rhoi **48** o bwyntiau UCAS.

FAINT O BYNCIAU A DDYLECH EU HASTUDIO YM MLWYDDYN 12?

Un o brif resymau'r Llywodraeth dros gyflwyno newidiadau i Addysg ôl 16 yw ehangu addysg myfyrwyr. Ystyr ehangder yw mwy o amrywiaeth nid mwy o'r un fath o bynciau. Fe fydd nifer y pynciau y mae pob myfyriwr yn eu hastudio ym Mlwyddyn 12 yn dibynnu ar nifer o ffactorau, ee canlyniadau TGAU, y cyfuniad gorau ar gyfer yr yrfa sydd gennych mewn golwg.

Bydd mynediad i'r 6ed dosbarth yn ddibynnol ar arlwy addas ar gyfer y disgybl hynny.

Gellir dewis y pynciau o'r tabl colofnau dewis - **dewiswch un pwnc yn unig mewn colofn**. Ni ellir caniatáu cyfuniad o bynciau y tu fewn i'r un golofn. Cofiwch fod posib cyfuno pynciau Safon Uwch â phynciau Cymhwysol. Wrth ddewis eich pynciau ystyriwch y materion canlynol yn ofalus:-

- Cyngor eich athrawon pwnc.
- Y cyfuniad gorau ar gyfer yr yrfa sydd gennych mewn golwg. Gofynnwch am gyngor. Mae croeso i chwi sgwrsio â'ch tiwtor personol, athrawon gyrfaedd neu Bennaeth Blwyddyn 12/13 ynglŷn â hyn.
- Y pynciau y cawsoch y canlyniadau gorau ynddynt yn arholiadau TGAU.
- Y pynciau yr ydych yn eu mwynhau fwyaf.

Ar ddiwedd Blwyddyn 12, neu ddechrau Blwyddyn 13 bydd rhaid i chwi benderfynu pa bynciau y bwriedwch barhau i'w hastudio. Bydd y mwyafrif yn astudio'r hyn sy'n cyfateb i dri phwnc U2 ym Mlwyddyn 13.

Mae pob disgybl yn dilyn cwrs Tystysgrif Her Sgiliau Uwch (Bagloriaeth Cymru).

TYSTYSGRIF HER SGILIAU UWCH (BAGLORIAETH CYMRU)

Mae Bagloriaeth Cymru yn seiliedig ar Dystysgrif Her Sgiliau ynghyd â Chymwysterau Ategol. Rhaid bodloni gofynion y Dystysgrif Her Sgiliau a'r Cymwysterau Ategol er mwyn cyflawni Bagloriaeth Cymru yn ei chyfanrwydd. Prif nod y cymhwyster yw galluogi'r dysgwyr i ddatblygu ac arddangos dealltwriaeth a hyfedredd mewn sgiliau hanfodol a chyflogadwyedd; caiff y myfyrwyr brofiadau sydd yn eu paratoi'n well ar gyfer Addysg Uwch a chyflogaeth.

Byddant yn cael cyfle i :-

- Weithio gyda chyflogwyr
- Datblygu sgiliau entrepreneuriaidd
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol
- Gweithio'n annibynnol
- Meithrin hyder personol
- Cryfhau eu sgiliau Llythrennedd, Rhifedd a Llythrennedd Digidol

Cyflwynir Tystysgrif Her Sgiliau Uwch trwy gyfrwng:-

- Gwersi ffurfiol
- Cyfraniadau gan siaradwyr gwadd
- Dyddiau sgiliau a gweithgareddau
- Cyfnod gweithgareddau yn Nhymor yr Haf

Disgwylir i'r myfyrwyr feithrin saith sgil hanfodol sydd mor bwysig ar gyfer dysgu, gwaith a bywyd, sef:-

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Digidol
- Meddwl yn feirniadol a Datrys Problemau
- Cynllunio a Threfnu
- Creadigedd ac Arloesi
- Effeithiolrwydd Personol

Bydd y saith sgil yn cael eu hasesu wrth i'r myfyrwyr ymgymryd â phedair her:

1. Prosiect Unigol
2. Her Menter a Chyflogadwyedd
3. Her Dinasyddiaeth Fyd-eang
4. Her y Gymuned

Mae'r pwyslais ar ddysgu cymhwysol a phwrpasol ac i ddarparu cyfleoedd asesu ar draws sawl cyd-destun, trwy gyfrwng tair Her a Phrosiect Unigol. Caiff bob myfyriwr gefnogaeth gan diwtor personol a mynediad i ystafell adnoddau er mwyn cwblhau eu gwaith.

Consortiwm Addysg Ôl-16

Gwynedd ac Ynys Môn

Post-16 Education Consortium

Gwynedd and Anglesey

CONSORTIWM ADDYSG ÔL-16 GWYNEDD AC YNYS MÔN

SEFYDLU GWYNEDD AC YNYS MÔN FEL ARDAL O RAGORIAETH AR GYFER DYSGU ÔL-16

Cafodd y Consortiwm ei sefydlu gyda buddsoddiad Ewropeaidd i roi cymorth i gynllunio a datblygu'r ardal o ran yr addysg a hyfforddiant sydd yn cael ei gynnis i ddysgwyr ar gyrsiau ôl-16. Elfen bwysig o waith y Consortiwm yw cydlynu yr

16 partner er mwyn darparu ffurf mwy cost-effeithlon ac effeithiol o gydweithio er lles dysgwyr ôl-16. Prosiect unigryw ydyw gan fod y Consortiwm yn cwmpasu'r ddau Awdurdod Addysg, (Gwynedd ac Ynys Môn) a Choleg Addysg Bellach (Grŵp Llandrillo Menai) ynghyd a'r 12 ysgol uwchradd sydd gyda Chweched Dosbarth.



Ar 30ain o Fai eleni lanswyd Consortiwm Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn yn swyddogol gan Brif Weinidog Cymru, Carwyn Jones ar faes Eisteddfod yr Urdd Meirionnydd yn Y Bala. Yn ystod ei araith dywedodd y Prif Weinidog, "Rwy'n falch o weld bod

cyllid yr UE yn cynorthwyo i ffurfio ysbryd o weithio mewn partneriaeth i sicrhau rhagoriaeth mewn addysg a hyfforddiant i'n bobl ifanc Gwynedd ac Ynys Môn fel y gallent wella eu rhagolygon gyrfaoel a sicrhau llwyddiant yn y gweithle."

Beth yw nôd Consortiwm Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn?

Sefydlu Gwynedd ac Ynys Môn fel ardal o ragoriaeth ar gyfer dysgu ôl-16, drwy:

- Leihau dyblygu gan sefydliadau, a chael canlyniadau gwell i bobl ifanc
- Cynnal lefelau uchel o gyrhaeddiad ymysg dysgwyr yn y cyfnod ôl-16
- Ehangu'r dewis i ddysgwyr yn y cyfnod ôl-16 ac ymateb i anghenion y farchnad lafur leol
- Ehangu cyfranogiad y dysgwyr yn y cyfnod ôl-16 ac ymateb i'r agenda ar dlodi ac amddifadedd
- Ymestyn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a hybu a chryfhau'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu.

Beth mae'r Consortiwm yn ei olygu i chi?

Mae modd i chi astudio pynciau gwahanol, newydd a chyffrous a datrys trafferthion gwrthdaro gan eich bod yn gallu mynd at ysgol neu goleg arall i astudio un pwnc. Bydd hyn yn rhoi mwy o ddewis pynciau i chi fydd yn gadael i chi ddewis y pynciau ydych angen eu gwneud er mwyn arwain at yrfa yn y maes o'ch dewis.

Mae'r Consortiwm Addysg Ôl-16 yn cynnig rhestr o gyrsiau partneriaeth rhwng ysgolion a cholegau yn eich ardal, yn cynnwys cyrsiau Uwch Gyfrannol, Lefel A a BTEC.

Gellir gweld rhestr o'r cyrsiau sydd ar gael ym mhrosbectws y Consortiwm. Gofynnwch i'r Dirprwy Bennaeth, Pennaeth Cynorthwyol neu Bennaeth 6ed dosbarth am gopi.



PYNCIAU LEFEL UWCH AC UWCH GYFRANNOL A GYNIGIR AR Y CYD GYDAG YSGOLION ERAILL YNYS MÔN A CHOLEG MENAI

Bydd y ddarpariaeth ar gyfer Safon Uwch, UG a BTEC mewn rhai pynciau ar y cyd gydag ysgolion eraill Ynys Môn a Choleg Menai.

Y pynciau a gynigir bydd:-

Cymhwyster	Pwnc	Lleoliad
UG/A	Almaeneg	Ysgol David Hughes
UG/A	Ffrangeg	Ysgol David Hughes
UG/ A	Drama	Ysgol David Hughes
UG/A	Daearyddiaeth	Ysgol David Hughes
UG/ A	Cerdd	Ysgol David Hughes
UG/A	Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Ysgol David Hughes
UG/A	Y Gyfraith	Ysgol David Hughes
UG/A	Mathemateg Bellach	Ysgol David Hughes
UG/A	Cymraeg Ail Iaith	Ysgol Uwchradd Caergybi
UG/A	Cyfrifiadureg	Ysgol Gyfun Llangefni
BTEC Lefel 3	Cyfryngau Creadigol – Teledu a Ffilm	Coleg Menai, Llangefni
BTEC Lefel 3	Cyfryngau Creadigol – Cynhyrchu Gemau	Coleg Menai, Llangefni
BTEC Lefel 3	Technoleg Cerdd	Coleg Menai, Bangor
BTEC Lefel 3	Peirianeg Fecanyddol	Coleg Menai, Llangefni
BTEC Lefel 3	Peirianeg Sifil ac Adeiladwaith	Coleg Menai, Llangefni

Gweler manylion y pynciau unigol gyda disgrifiadau'r pynciau eraill. Bydd dim ond lle i nifer gyfyngedig o fyfyrwyr ar y cyrsiau a restrir.

Bydd y dysgu yn digwydd mewn sesiynau bore a /neu brynhawn. Yn ogystal â'r cyfnod hwn bydd disgwyl i'r myfyrwyr wneud ychydig o waith yn yr ysgol. Gwneir trefniadau i gludo'r disgyblion o'r ysgol i'r lleoliad addysgu ac yn ôl i'r ysgol.

PWYNTIAU UCAS

Mae'r Llywodraeth wedi diwygio'r system bwyntiau ar gyfer mynediad i Brifysgol. Ers Medi 2016 mae'r graddau A* → E werth y pwyntiau a ddangosir yn y tabl isod.

SAFON UWCH/UG A CYMHWYSOL UWCH GCE A/AS and ADVANCED APPLIED				
UWCH GYFRANNOL AS LEVEL	LEFEL A A'R BAC A LEVEL AND BACC	TARIFF NEWYDD NEW TARIFF POINTS	BTEC DIPLOMA ATODOL SUBSIDIARY DIPLOMA	BTEC TYSTYSGRIF CERTIFICATE
	A*	56	D*	
	A	48	D	
	B	40		
	C	32	M	
		28		D*
	D	24		D
A		20		
B	E	16	P	M
C		12		
D		10		
		8		P
E		6		

CYFOETHOGI

PROFIAD GWAITH

Treulia myfyrwyr Blwyddyn 12 bum niwrnod yn cael profiad gwaith, yn ystod mis Gorffennaf. Ni ddylai'r myfyrwyr ail-adrodd y profiad gwaith a gafodd ym Mlwyddyn 10, oni bai fod rheswm dilys dros wneud hynny. Dylai'r myfyrwyr ymgynghori â'u hathrawon pwnc a'u tiwtoriaid wrth geisio penderfynu ar faes profiad.

Dylid penderfynu ar faes profiad ar sail un o'r ffactorau a restrir isod:-
I ddatblygu 'sgiliau craidd' ee cyfathrebu, datrys problemau, defnydd o hamdden.

Am fod a wnelo a dewis gyrfa.

Er mwyn i'r profiad alluogi disgybl i gwblhau prosiect/gwaith cwrs.

Mae pob disgybl yn gyfrifol am drefnu ei brofiad gwaith ei hun.

GWAITH GWIRFODDOL / MAGU PROFIAD PERTHNASOL

Mae'r ysgol yn awyddus i ryddhau myfyrwyr Blwyddyn 12 ac 13 ar leoliad i wneud gwaith gwirfoddol neu i fagu profiad perthnasol ar gyfer eu dyfodol. Yn naturiol bydd hyn yn digwydd pan nad oes gwersi o fewn un cyfnod ysgol, e.e. un bore/prynhawn yr wythnos. Mae prifysgolion yn chwilio am fyfyrwyr sydd yn fodlon cynnig mwy na'r cyffredin. Byddai hyn yn gymorth mawr.

ADNODDAU

Y GANOLFAN ADNODDAU/LLYFRGELL

Disgwylir i bawb fanteisio ar y cyfle o wneud gwir ddefnydd o Ganolfan Adnoddau/Llyfrgell yr ysgol. Yma gellir darllen llyfrau cefndir y pynciau a astudir, edrych ar lyfrau cyfeirio a gwyddoniaduron a gwneud nodiadau ychwanegol ar agweddau o'r maes llafur. Yma, yn ogystal, medrwch ddysgu ac adolygu'ch gwaith. Bydd rhaid i chi weithio'n annibynnol yn y Brifysgol - felly dechreuwch yn awr!

Mae rheolau pendant ynglŷn â sut i ddefnyddio'r Ganolfan Adnoddau/Llyfrgell. Distawrwydd yw rheol euraidd. Pwysleisir bod yn rhaid bob amser gadw at y rheol hon er chwarae teg i bawb.

Ni chaniateir i neb fynd â llyfrau cyfeiriadaeth allan o'r Ganolfan Adnoddau/Llyfrgell a rhaid defnyddio sianelau priodol i fenthyca unrhyw lyfr arall y dymunwch ei fenthyca.

Anelwn at eich cynorthwyo chi i addasu'n naturiol i fywyd myfyriwr call a'ch cymell i fod yn hunan disgybledig - rhywbeth sy'n anodd i oedolion i ymarfer, er gwaetha'r bwriadau gorau, ond sy'n hollbwysig i lwyddiant.

TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU

Yn ein byd cyfoes, cyflym o gyfrifiaduron, Rhyngwrwd ac E-bost, mae gan y rheiny sy'n gallu trin y dechnoleg i ganfod gwybodaeth yn effeithiol fantais amlwg.

Mae'r ysgol wedi buddsoddi'n helaeth i ehangu ei rhwydwaith cyfrifiadurol er mwyn darparu mynediad cyflym i'r Rhyngwrwd drwy'r ysgol. Mae cyfrifiaduron ar gael ar gyfer Blwyddyn 12/13 yn y llyfrgell ac yng Nghanolfan y Chweched, yn ogystal â nifer o liniaduron y gall myfyrwyr eu benthyg, neu gall unigolion ddod â'u liniaduron eu hunain i'r ysgol. Mae loceri ar gael i'w cadw.

ADDYSG A CHYFARWYDDYD GYRFAOEDD

Mae Addysg a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd yn broses barhaol yn natblygiad gyrfaoel pob myfyriwr/wraig ac mae'n bwysig i chi gadw mewn cysylltiad agos â'r adran gydol y ddwy flynedd.

Ceir gwybodaeth am holl gyrsiau Colegau Addysg Uwch, a Phrifysgolion ym mhrosbectws y sefydliadau sydd ar gael yn y Ganolfan Yrfaoedd. Yn ogystal mae gwybodaeth ar gael am hyfforddiant, Prentisiaethau a manylion am swyddi yn lleol a chenedlaethol. Mae'r Cwmni Gyrfa yn cyhoeddi llyfr o'r holl opsiynau ôl 17 a bydd y cynghorydd gyrfaoedd ar gael i gyfweld myfyrwyr Blwyddyn 12 a 13.

Mae pwyslais arbennig ar gynghori unigol a chynigir cymorth, cyngor a gwybodaeth yrfaol i bawb ym Blwyddyn 12 a 13. Gellir defnyddio'r ystafell yrfaedd, 115, ar unrhyw adeg.

LLES

Anogir myfyrwyr i siarad gydag unrhyw aelod o Dîm y 6ed os ydynt yn pryderu o gwbl am unrhyw agwedd o'u hiechyd neu eu gwaith. Mae croeso i rieni gysylltu hefyd er mwyn i ni sicrhau eu bod yn rhoid y gefnogaeth orau i'r myfyrwyr.

LWFANS CYNHALIAETH ADDYSG

Os ydych yn parhau mewn addysg ar ôl i chi gyrraedd yr oedran gadael ysgol statudol [16] gallech fod yn gymwys i wneud cais am LCA. Gallwch dderbyn hyd at £60 i'ch cyfrif banc bob pythefnos i'ch helpu gyda'r gost o barhau a'ch addysg.

Mae manylion pellach yn y pecyn cais LCA Cymru ar gael yn yr ysgol neu ar y wefan

<https://www.studentfinancewales.co.uk/fe/ema.aspx>

RHEOLAU

Bydd rheolau cyffredinol yr ysgol yn berthnasol i fyfyrwyr ôl 16, ond gobeithir mai hunan ddisgyblaeth fydd yn rheoli eich ymddygiad.

<p style="text-align: center;">PARCH YW'R CYWEIRNOD PARCH AT BOBL A PHETHAU</p>

BREINTIAU

1. **CANOLFAN BL12/13** - Dyma ystafell waith anffurfiol gyda mynediad i gyfrifiaduron, gan gynnwys mynediad i'r we trwy'r polisi Defnyddio Dyfeisiau Personol. Disgwylir i chi barchu'r adeilad a'r eiddo.
2. **COFRESTRU** - Rhaid i bob disgybl gofrestru yn brydlon am 8.50 am ac am 1.35 pm os nad oes gennyhch wers.
3. **GADAEL YR YSGOL YN YSTOD Y DYDD** - Caniateir i fyfyrwyr Blwyddyn 12 sydd â bore neu brynhawn cyfan heb wersi, aros adref i weithio am un sesiwn yn unig yr wythnos OS YDY'CH RHIENI YN CYTUNO Â HYN - gweler copi o'r cytundeb swyddogol a gytunwyd gan lywodraethwyr yr ysgol.

GWISG YSGOL

Disgwylir i bob aelod Blwyddyn 12+13 fod yn esiampl i ddisgyblion iau yn eu gwisg. Mae'r wisg ysgol a gytunwyd gan y Llywodraethwyr yn orfodol i holl fyfyrwyr Blwyddyn 12 a 13.

Disgwylir i'r myfyrwyr wisgo trowsus neu sgert **blaen** du (at y pen-glin), crys gwyn gyda siwmpwr gwddw v ddu gyda logo Blwyddyn 12/13 Ysgol David Hughes a thei swyddogol Ysgol David Hughes. Rydym yn gofyn i fyfyrwyr wisgo **esgidiau du unlliw**. Bydd angen cot ysgol dywyll yn ystod tywydd oer/gwlyb.

Y CAM NESAF

GWYBODAETH A CHYNGOR YNGLŶN Â MYNEDIAD I ADDYSG UWCH

Nôd Blynyddoedd 12 a 13 yw eich paratoi ar gyfer eich cam nesaf i'r dyfodol. Chi yn unig all wneud y penderfyniadau pwysig sydd o'ch blaen ond mae pob aelod o'r tîm personél ar dudalen 3 yn awyddus iawn i'ch cynghori a'ch cynorthwyo bob amser. **Os oes, angen help arnoch, gofynnwch!**

Mae gennym ddwy system gyngori sy'n bodoli ar y cyd - un ffurfiol ac un anffurfiol.

FFURFIOL

1. **Llawlyfr** - Gwybodaeth am bopeth yn ymwneud â Blwyddyn 12 + 13.
2. **Diwrnod Cyflwyno Blwyddyn 12** - Cyfle i gyfarwyddo â'r drefn, cyfarfod tiwtoriaid personol, derbyn amserlen, trafod cyrsiau ayyb.
3. **Diwrnod Cyngor Ar Fynediad i Addysg Uwch** - Cyfarwyddyd ar lenwi ffurflenni, llawlyfr i gynnig cymorth ychwanegol, cyngor gan arbenigwyr.
4. **Noson Rhieni** - Gwahoddiad i rieni glywed y cyngor uchod.
5. **Trosglwyddo i'r Addysg Uwch** - Cedwir cofnod o ofynion colegau ar gyfer y gwahanol gyrsiau, y cynigion a gawsoch, a'ch dewisiadau pendant ac amodol.
6. **Diwrnod Canlyniadau** - Mawr obeithiwn y cewch y canlyniadau yr hoffech - ond beth bynnag a ddigwydd bydd cyngor a chymorth ar gael.

ANFFURFIOL

Mae gan bob myfyriwr DIWTOR PERSONOL. Bydd y tiwtor ar gael i drafod problemau a rhoi cyngor.

CYNGOR GYRFAOL

Gellir gwneud apwyntiad i siarad â'r athrawon gyrfaoedd.

Mawr obeithiwn y mwynhewch eich gyrfa ôl 16 a dymunwn bob llwyddiant a bendith i chi ar ddechrau'ch taith i'r dyfodol.



Os ydych yn bwriadu dychwelyd i'r chweched dosbarth, nodwch eich hoff ddewisiadau ar y pryd. Gall hyn newid yn dibynnu ar ganlyniadau arholiadau ac ati.

Ni chewch dewis mwyr nag un pwnc o un golofn ----- Nid oes angen dewis pwnc o bob un golofn

If you intend returning to the sixth form please indicate your preferred option choices. This can change depending on exam results etc.

You cannot choose more than one subject from the same column ----- You do not need to choose a subject from every column

Enw Cyntaf Forename		Enw(au) Canol Middle Name(s)		Cyfenw Surname		Dosbarth Cofrestru 11 Registration Class 11	
--------------------------------------	--	---	--	---------------------------------	--	--	--

Opswn / Option 1	
Bywydeg <i>Biology</i>	
Cymdeithaseg <i>Sociology</i>	
Gwyddoniaeth Feddygol Tyst./Dip <i>Medical Science Cert./Dip</i>	
Almaeneg <i>German</i>	
Ffrangeg <i>French</i>	
Drama	
Cyfryngau - Ffilm a Theledu <i>Media- Film and Television</i>	
Cyfryngau – Cynllunio Gemau <i>Media – Games Design</i>	
Technoleg Cerdd <i>Music Technology</i>	
Peirianeg <i>Engineering</i>	

Opswn / Option 2	
Saesneg <i>English</i>	
Ffiseg <i>Physics</i>	
Dylunio a Thechnoleg <i>Design and Technology</i>	
Addysg Grefyddol <i>Religious Education</i>	
Addysg Gorfforol <i>Physical Education</i>	
Cymraeg Ail Iaith <i>Welsh Second Language</i>	
Daearyddiaeth <i>Geography</i>	
Cerdd <i>Music</i>	
Peirianeg Sifil ac Adeiladwaith <i>Civil Engineering & Construction</i>	

Opswn / Option 3	
Cemeg <i>Chemistry</i>	
Mathemateg <i>Mathematics</i>	
Hanes <i>History</i>	
Business	
Seicoleg <i>Psychology</i>	
Twristiaeth Tyst./Dip <i>Tourism Cert./Dip</i>	

Ysgol David Hughes
Ysgol Gyfun Llangefni
Coleg Menai
Ysgol Uwchradd Caerdybi

Opswn / Option 4	
Bywydeg <i>Biology</i>	
Mathemateg <i>Mathematics</i>	
Health and Social Care	
Law	
Further Mathematics	
Cyfrifiadureg <i>Computer Science</i>	

Opswn / Option 5	
Cemeg <i>Chemistry</i>	
Ffiseg <i>Physics</i>	
Celf <i>Art</i>	
Technoleg Gwybodaeth <i>Information Technology</i>	
Cymraeg	



DISGRIFIADAU PYNCIAU

PYNCIAU:	CORFF DYFARNU:	CYMHWYSTER:	TUDALEN:
Tystysgrif Her Sgiliau Uwch (BAC)	CBAC/WJEC	TYSTYSGRIF HER SGILIAU UWCH	7
Busnes	OCR	CAMBRIDGE TECHNICALS LEFEL 3	17
Addysg Gorfforol	CBAC/WJEC	UG/AS/A	18
Astudiaethau Crefyddol	CBAC/WJEC	UG/AS/A	19
Bywydeg	CBAC/WJEC	UG/AS/A	20
Celf a Dylunio	CBAC/WJEC	UG/AS/A	21
Dylunio a Thechnoleg – Dylunio Cynnyrch	CBAC/WJEC	UG/AS/A	22
Cemeg	CBAC/WJEC	UG/AS/A	23
Cerddoriaeth	CBAC/WJEC	UG/AS/A	24
Cyfryngau Creadigol – Teledu a Ffilm	EDEXCEL	BTEC Lefel/Level 3	25
Cyfryngau Creadigol – Cynhyrchu Gemau	EDEXCEL	BTEC Lefel/Level 3	26
Cymdeithaseg	CBAC/WJEC	UG/AS/A	27
Cymraeg (Mamiaith)	CBAC/WJEC	UG/AS/A	28
Cymraeg (Ailiaith)	CBAC/WJEC	UG/AS/A	29
Daearyddiaeth	CBAC/WJEC	UG/AS/A	30
Drama a Chelfyddydau Theatrigr	CBAC/WJEC	UG/AS/A	31
Ffiseg	CBAC/WJEC	UG/AS/A	32
Hanes	CBAC/WJEC	UG/AS/A	33
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	CBAC/WJEC	UG/AS/A	34
Ieithoedd Modern – Almaeneg a/neu Ffrangeg	CBAC/WJEC	UG/AS/A	35+36
Mathemateg	CBAC/WJEC	UG/AS/A	37
Mathemateg Bellach	CBAC/WJEC	UG/AS/A	37
Peirianeg Fecanyddol	EDEXCEL	BTEC Lefel/Level 3	38
Saesneg	CBAC/WJEC	UG/AS/A	39
Seicoleg	CBAC/WJEC	UG/AS/A	40
Technoleg Cerdd	EDEXCEL	BTEC Lefel/Level 3	41
Y Gyfraith	CBAC/WJEC	UG/AS/A	42
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	CBAC/WJEC	UG/AS/A	43
Peirianeg Sifil ac Adeiladwaith	EDEXCEL	BTEC Lefel/Level 3	44
Gwyddoniaeth Feddygol Tystysgrif/Diploma	CBAC/WJEC	Tystysgrif/Diploma Lefel 3	45
Cyfrifiadureg	CBAC/WJEC	UG/AS/A	46
Twristiaeth Tystysgrif/Diploma	CBAC/WJEC	Tystysgrif/Diploma Lefel 3	47

BUSNES – OCR CAMBRIDGE TECHNICALS LEFEL 3 TYSTYSGRIF/TYSTYSGRIF ESTYNEDIG

Mae'r cwrs OCR Cambridge Technicals Lefel 3 Tystysgrif Estynedig Busnes yn cynnwys pum uned - astudir dwy yn y flwyddyn gyntaf, Uned 1 ac Uned 4 ar gyfer y dystysgrif, ac yna tair arall yn yr ail flwyddyn, Uned 2 a dwy uned, i'w benodi, ar gyfer y dystysgrif estynedig

Unedau Tystysgrif yw:

Uned 1 – AMGYLCHEDD BUSNES – Arholiad Ysgrifenedig: 2 awr

Uned 4 - CWSMERIAID A CHYFATHREBU - Asesiad Di-arholiad

Unedau Tystysgrif Estynedig yw: (yr uchod a3 unedau arall)

Uned 2 – GWEITHIO MEWN BUSNES – Arholiad ysgrifenedig – 1 awr 30 munud

A 2 uned arall, i'w gadarnhau o'r canlynol:

Rhif Uned	Teitl Uned	Math Asesiad
3	Penderfyniadau busnes	Arholiad ysgrifenedig
5	Marchnata ac ymchwil farchnad	Asesiad di-arholiad
8	Cyflwyniad i adnoddau dynol	Asesiad di-arholiad
11	Cysyniad Cyfrifyddu	Asesiad di-arholiad
16	Egwyddorion rheoli prosiect	Asesiad di-arholiad
17	Ymarferion busnes cyfrifol	Asesiad di-arholiad
19	Busnes rhyngwladol	Asesiad di-arholiad
20	Digwyddiadau busnes	Asesiad di-arholiad
21	Bod yn fentrwr	Asesiad di-arholiad

Beth fyddaf ei angen?

Mae'n hanfodol eich bod chi'n gallu mynegi eich hun ar bapur. Bydd disgwyl i chi fod â diddordeb mewn materion busnes a digwyddiadau yn y byd busnes. Bydd gofyn i chi allu gwneud cyfrifiadau mathemategol ar gyfer rhai unedau.

Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Bydd dau arholiad ysgrifenedig allanol ar ddiwedd pob blwyddyn. Bydd yr unedau eraill yn asesiadau di-arholiad yn cael eu marcio gan yr athrawes a'u safoni yn allanol.

Graddau

Anrhydedd*, Anrhydedd, Clod a Llwyddo.

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?

Mae'r cwrs yma yn sylfaen ardderchog ar gyfer astudio Astudiaethau Busnes neu faes perthnasol, trwy gyfrwng amrediad o gyrсияu addysg uwch fel gyrсияu gradd mewn Busnes, Economeg, Gweinyddu Busnes a Rheoli Busnes. Hefyd gallwch symud ymlaen i'r lefel nesaf o gymwysterau galwedigaethol fel BTEC Uwch.

Syniadau Gyrfaol!

• Rhedeg Busnes	• Marchnata	• Bancio
• Cyllid	• Adnoddau Dynol	• Rheolaeth
• Economegydd	• Ymchwilydd	• Ymgynghorydd

Am wybod mwy?

Am fwy o wybodaeth, ewch i weld Ms Leah Rowlands yn yr ysgol.

ADDYSG GORFFOROL

Lluniwyd y maes llafur hwn i ddarparu dilyniant o TGAU a sylfaen gadarn ar gyfer astudio mewn addysg uwch. Mae'n cymryd bod yr ymgeiswyr wedi astudio'r pwnc yng Nghyfnod Allweddol 4; byddai dealltwriaeth dda o Fywydeg, Cemeg a Saesneg o fantais fawr.

Mae pwyslais yr elfennau theori ar y perfformiwr a pherfformiad ac mae'n hyrwyddo defnyddio theori mewn cyd-destun ymarferol. Mae dull amlddisgyblaethol i'r maes llafur, sy'n hyrwyddo datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth mewn amrywiaeth o newidynnau sy'n effeithio ar berfformiad. Mae'r cwrs hwn yn addas ar gyfer unigolion academaidd sy'n berfformwyr, hyfforddwyr neu swyddogion brwdfrydig.

UG Uned 1

Archwilio addysg gorfforol

Arholiad ysgrifenedig : 1¼ awr 24% o'r cymhwyster Safon Uwch (60% o'r cymhwyster UG) 72 marc

- Ffisioleg ymarfer corff (*exercise*), dadansoddi perfformiad ac ymarfer (*training*)
- Seicoleg chwaraeon
- Caffael sgiliau
- Chwaraeon a'r gymdeithas

UG Uned 2

Gwella perfformiad personol mewn addysg gorfforol

Asesiad di-arholiad 16% o'r cymhwyster Safon Uwch (40% o'r cymhwyster UG) 48 marc

Perfformiad ymarferol mewn **un** gweithgaredd fel chwaraewr/perfformiwr ac fel hyfforddwr **neu** ddyfarnwr

Proffil Perfformiad Personol

Safon Uwch Uned 3

Gwerthuso addysg gorfforol

Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 36% o'r cymhwyster 90 marc

- Ffisioleg ymarfer corff (*exercise*), dadansoddi perfformiad ac ymarfer (*training*)
- Seicoleg chwaraeon
- Caffael sgiliau
- Chwaraeon a'r gymdeithas

Safon Uwch Uned 4

Mireinio perfformiad personol mewn addysg gorfforol

Asesiad di-arholiad 24% o'r cymhwyster 60 marc

Perfformiad ymarferol mewn **un** gweithgaredd fel chwaraewr/perfformiwr,

hyfforddwr **neu** ddyfarnwr

Ymchwil Ymchwiliol

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?

Yn dilyn Blwyddyn 13 gallech chwilio am waith yn y diwydiant hamdden neu fynd i Addysg Uwch. Gallech astudio cwrs gradd mewn Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer. Gall y cynghorydd gyrfaedd yn eich ysgol roi mwy o syniadau i chi.

Syniadau Gyrfao!

Gweithio yn y diwydiant ffitrwydd

Rheolaeth Hamdden

Hyfforddi ffitrwydd

Gweithio yn y diwydiant gweithgareddau awyr agored

Therapi Chwaraeon

Ffisiotherapi

Dysgu Addysg Gorfforol

Hyfforddi personol

Radiograffi

Therapi galwedigaethol

Eisiau gwybod mwy?

Am fwy o wybodaeth, ewch i weld y Pennaeth Adran, Mr Thomas D. Williams.

ASTUDIAETHAU CREFYDDOL

Pwy sy'n dewis cwrs Astudiaethau Crefyddol?

Pob math o bobl o bob math o gefndiroedd. Does dim rhaid bod yn grefyddol er mwyn dilyn y cwrs hwn, ond mae diddordeb mewn crefydd yn hollbwysig. Mae'n fanteisiol i chi fod wedi dilyn y cwrs TGAU Astudiaethau Crefyddol ond nid yw bob amser yn gwbl angenrheidiol.

Pa ddefnydd fydd astudio Astudiaethau Crefyddol i mi yn y dyfodol?

Mae Astudiaethau Crefyddol yn gosod sylfaen dda ar gyfer addysg bellach a gyrfaoedd mewn nifer o broffesiynau. Mae'r rhain yn cynnwys: gwaith cymdeithasol, meddygaeth, nyrsio, byd y Gyfraith, Addysg, y Cyfryngau, gwaith VSO a gwaith gyda chymdeithasau crefyddol. Mae'r cwrs hefyd o ddiddordeb i bobl sy'n bwriadu teithio'r byd.

Beth yw'r cwrs?

Blwyddyn 12 (Uwch Gyfrannol)

Byddwch yn dilyn dau fodiwl, sef Rhagarweiniad i Astudiaeth mewn Crefydd a Rhagarweiniad i Athroniaeth a Moeseg.

Astudiaeth mewn Crefydd: ee, pobl grefyddol ac ysgrythurau, cysyniadau crefyddol, bywyd crefyddol ac ymarferion crefyddol.

Rhagarweiniad at Athroniaeth a Moeseg: ee, iaith foesebol, Deddf Naturiol Aquinas a dadleuon cosmolegol am fodolaeth Duw.

Blwyddyn 13 (Safon Uwch)

Byddwch yn dilyn tri modiwl pellach, sef astudiaeth mewn crefydd, Crefydd a Moeseg ac Athroniaeth Crefydd.

Astudiaeth mewn Crefydd: ee, datblygiadau hanesyddol arwyddocaol mewn crefydd ac ymarferion crefyddol sy'n siapiro hunaniaeth grefyddol.

Crefydd a Moeseg: ee, Kant, ewyllys rhydd a phenderfyniaeth.

Athroniaeth Crefydd: ee, dadleuon ontolegol am fodolaeth Duw a her i gredoau crefyddol.

Sut mae'r cwrs yn cael ei asesu?

Blwyddyn 12:

Haf 2020 – un papur arholiad 1 awr 15 munud o hyd ar y modiwl Rhagarweiniad i Astudiaeth mewn Crefydd.

Haf 2020 – un papur arholiad 1 awr 45 munud o hyd ar y modiwl Rhagarweiniad i Athroniaeth a Moeseg.

Blwyddyn 13:

Haf 2021 – un papur arholiad 1 awr 30 munud o hyd ar y modiwl Astudiaeth mewn Crefydd.

Haf 2021 – un papur arholiad 1 awr 30 munud o hyd ar y modiwl Crefydd a Moeseg.

Haf 2021 – un papur arholiad 1 awr 30 munud o hyd ar y modiwl Athroniaeth Crefydd.

BYWYDEG

Mae'r fanyleb hon wedi ei rhannu'n gyfanswm o 6 uned, 2 uned UG a 3 uned Safon Uwch. Mae'r pwysiadau a ddangosir isod wedi eu mynegi yn nhermau'r cwrs **Safon Uwch llawn**.

Am fwy o wybodaeth am y cwrs gweler Mr Iwan Lewis Jones, Pennaeth Bywydeg.

Bwriad y cwrs Bywydeg yw:

Annog ac ysgogi diddordeb myfyrwyr mewn organebau byw;

Datblygu gwybodaeth am dechnegau bywydegol yn y meysydd gwyddonol, a phrosesau bywydegol;

Datblygu sgiliau ymarferol.

Mae'n gymhwyster gofynnol ar gyfer amrediad eang o gyrsiau gradd, yn amrywio o feddygaeth a deintyddiaeth i astudiaethau amgylcheddol.

Gofynion mynediad ar gyfer y cwrs:

A*, A neu B mewn TGAU Gwyddoniaeth (Haen Uwch).

Mae'r pwnc hwn yn cael ei ddysgu drwy gyfrwng y Saesneg. Mae amrywiaeth eang o adnoddau Cymraeg ar gael i fyfyrwyr os oes angen.

CRYNODEB O ASESIAD

Cwrs AS (2 uned)

AS Uned 1	Biocemeg Sylfaenol a Threfniadaeth Celloedd (Arholiad ysgrifenedig)	[20%]
AS Uned 2	Bioamrywiaeth a Ffisioleg Systemau'r Corff (Arholiad ysgrifenedig)	[20%]

Cwrs U2 (yr uchod a 3 uned bellach)

U2 Uned 3	Egni, Homeostasis a'r Amgylchedd (Arholiad ysgrifenedig)	A2 [25%]
U2 Uned 4	Amrywiad, Etifeddiad ac Opsiynau (Arholiad ysgrifenedig)	A2 [25%]
U2 Uned 5	Arholiad Ymarferol (Arholiad ymarferol)	A2 [10%]

CELF A DYLUNIO

Mae'r maes llafur diwygiedig Celf a Dylunio yn UG a Lefel A wedi ei ddylunio fel bod ymgeiswyr yn cael profi ystod o gelf, crefft a dylunio. Mae ganddo gysylltiadau gyda thechnoleg, hanes a'r celfyddydau mynegiant a pherfformio yn cynnwys cerddoriaeth a drama.

Mae'r cwrs yn ffurfio dilyniant naturiol o'r TGAU. Cefnogir gwaith yr adran trwy gyfleoedd ychwanegol megis ymweliadau ag orielau celf ac amgueddfeydd, teithiau maes neu weithdai gan artistiaid.

Mae'r cwrs UG (ac wedyn Lefel A) yn gofyn am lefel uchel o hunan-gymhelliad a mewnbwn personol. Mae cyfleoedd i weithio mewn ystod eang o ddisgyblaethau gan gynnwys darlunio, peintio, gwneud printiadau ac adeiladwaith 3-dimensiwm a TGCh.

Mae'r cwrs UG diwygiedig yn rhedeg o fis Medi tan y mis Mai dilynol. I ddechrau bydd y myfyrwyr yn cael cyfle i ddatblygu sylfaen eang o sgiliau beirniadol, ymarferol a damcaniaethol. Mae hyn yn rhoi sail gadarn iddynt ar gyfer mynd ymlaen i'r rhan nesaf o'r cwrs, sef 'Yr Ymholiad Personol a Chreadigol' lle mae myfyrwyr yn gweithio ar bwnc sydd ag arwyddocâd personol iddynt.

Mae'r cwrs UG Celf a Dylunio yn rhoi sail briodol i fynd ymlaen at lefel A sy'n gofyn am fwy o aeddfedrwydd, annibyniaeth ac arbenigedd. Mae dwy gydran i'r cwrs A2; ymchwiliad unigol ac un aseiniad terfynol dan reolaeth.

Mae'r radd UG yn seiliedig ar 100% gwaith cwrs. Yn Lefel A mae'r radd derfynol wedi ei gwneud o 36% am Ymchwiliad Personol; 24% am Dasg a Osodir yn Allanol wedi'u hychwanegu at 40% y marciau UG. Mae'r cydrannau hyn yn cael eu marcio'n fewnol a'u safoni'n allanol.

Mae'r cwrs yn sylfaen addas ar gyfer astudio Celf a Dylunio neu faes cysylltiedig mewn ystod o gyrsiau addysg uwch, er mwyn symud ymlaen i'r lefel nesaf o gymwysterau galwedigaethol neu fynd yn syth i gyflogaeth.

Mae'r adran hon wedi ennill enw da iddi hi ei hun, gyda'n myfyrwyr yn ennill llefydd mewn colegau a phrifysgolion a llawer ohonynt yn mynd ymlaen i yrfaedd mewn meysydd megis cerflunio, hysbysebu, ffotograffiaeth, cynllunio blodau, pensaernïaeth, dylunio ffasiwn/tecstilïau, darlunio, dysgu yn y sector gynradd, hanes celf, therapi celf, dylunio cynhyrchion, dylunio gwisgoedd, dylunio ar gyfer y theatr, dylunio graffig/gwefannau.

DYLUNIO A THECHNOLEG – DYLUNIO CYNNYRCH

Mae Dylunio & Thechnoleg Dylunio Cynnyrch yn cynnig dilyniant naturiol i ymgeiswyr sydd wedi bod yn llwyddiannus mewn cwrs TGAU mewn unrhyw un o'r cyrsiau D&T canlynol: Dylunio Cynnyrch a Thecstiliau.

- mae gofyn i'r myfyrwyr fod yn frwdfrydig am ddylunio a chreu cynnyrch;
- bod yn awyddus ac yn fodlon wynebu heriau;
- Mae angen creadigrwydd a dychymyg;
- yn ogystal â gwybodaeth a medrau cynhyrchu a dylunio.

Ar gyfer mynediad i Addysg Uwch, mae cwrs Safon Uwch mewn D&T yn sylfaen gadarn ar gyfer amrywiaeth o gyrsiau gradd greadigol a thechnolegol. Dyma rhai o'r posibiliadau:

- peirianeg a phensaernïaeth;
- dylunio cynnyrch a dylunio diwydiannol;
- gemydd a dylunio dodrefn;
- cwrs Sylfaen Celf.

Mae'r cwrs Safon Uwch llawn yn cynnwys y pedair uned ganlynol:

UG Uned 1: Papur ysgrifenedig 1, Arholiad ysgrifenedig, 2 awr, 80 marc [20%]

Mae'r arholiad yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau ysgrifennu strwythuredig ac estynedig sy'n asesu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o:

- egwyddorion technolegol
- egwyddorion dylunio a gwneud

ynghyd â'u gallu i:

- dadansoddi a gwerthuso penderfyniadau dylunio a materion ehangach mewn dylunio a thechnoleg

UG Uned 2: Tasg dylunio a gwneud, Asesiad di-arholiad, tua 40 awr, 80 marc [20%]

Tasg dylunio a gwneud, yn seiliedig ar friff a ddatblygwyd gan yr ymgeisydd, yn asesu gallu'r ymgeisydd i:

- adnabod, ymchwilio ac amlinellu posibiliadau dylunio
- dylunio a gwneud prototeipiau
- dadansoddi a gwerthuso penderfyniadau dylunio a materion ehangach mewn dylunio a thechnoleg.

Bydd y dasg dylunio a gwneud yn seiliedig ar yr un maes arnodedig â'r arholiad ysgrifenedig.

U2 Uned 3: Papur ysgrifenedig 2, Arholiad ysgrifenedig, 2 awr 30 munud, 100 marc [30%]

Mae'r arholiad yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau ysgrifennu strwythuredig ac estynedig sy'n asesu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o:

- egwyddorion technolegol
- egwyddorion dylunio a gwneud

ynghyd â'u gallu i:

- dadansoddi a gwerthuso penderfyniadau dylunio a materion ehangach mewn dylunio a thechnoleg

U2 Uned 4: Prosiect dylunio a gwneud, Asesiad di-arholiad, tua 60 awr, 100 marc [30%]

Prosiect dylunio a gwneud dwys a manwl, yn seiliedig ar friff a ddatblygwyd gan yr ymgeisydd, yn asesu gallu'r ymgeisydd i:

- adnabod, ymchwilio ac amlinellu posibiliadau dylunio
- dylunio a gwneud prototeipiau
- dadansoddi a gwerthuso penderfyniadau dylunio a materion ehangach mewn dylunio a thechnoleg.

Bydd y prosiect dylunio a gwneud yn seiliedig ar yr un maes arnodedig â'r arholiad ysgrifenedig.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Mr Dilwyn Jones,

Pennaeth yr Adran Dechnoleg.

CEMEG

Rhennir y fanyleb yn gyfanswm o 6 uned – 3 uned UG a 3 uned U2.

BLWYDDYN 12 - lefel UG (2 uned). Graddfa pum gradd A-E.

UG UNED 1 – Iaith cemeg, strwythur mater ac adweithiau syml.

[20%]

(Papur ysgrifenedig a asesir yn allanol - 1½ awr, 80 marc)

Mae'r uned yma'n edrych ar:-

- Fformiwlâu a hafaliadau
- Cyfrifiadau cemegol
- Strwythurau solid
- Adweithiau ecwilibria ac asid-bas syml
- Syniadau sylfaenol am atomau
- Bondio
- Y tabl cyfnodol

UG UNED 2 – Egni, cyfradd a chemeg cyfansoddion carbon

[20%]

(Papur arholiad a asesir yn allanol - 1½ awr, 80 marc)

Mae'r uned hon yn edrych ar:-

- Thermochemeg
- Effaith ehangach cemeg
- Hydrocarbonau
- Dadansoddiad offeryn
- Cyfraddau adwaith
- Cyfansoddion organig
- Halogenoalcanau
- Alcoholau ac asidau carbon a charbocsylog

BLWYDDYN 13 – Lefel A (yr uchod a 3 uned bellach). Graddfa 6 gradd A* - E.

U2 UNED 3 – Cemeg Ffisegol ac Anorganig

[25%]

(Papur ysgrifenedig a asesir yn allanol - 1¾ awr, 80 marc)

- Rhydocs, potensial electrod safonol
- Cemeg y bloc-p
- Cineteg Gemegol
- Entropi a dichonoldeb adweithiau
- Ecwilibria asid-bas
- Adweithio rhydocs
- Cemeg y Metelau Trosiad bloc-d
- Newidiadau enthalpi ar gyfer solidau a hydoddiannau
- Cysonion ecwilibriwm

U2 UNED 4 – Cemeg Organig a dadansoddiad

[25%]

(Papur ysgrifenedig a asesir yn allanol - 1¾ awr, 80 marc)

- Stereoisomeredd
- Alcoholau a ffenolau
- Asidau carbocsylog a'u deilliadau
- Asidau amino, peptidau a phroteinau
- Persawrusrwydd
- Aldehydau a chetonau
- Aminau
- Synthesis organig a dadansoddiad

U2 UNED 5 – Arholiad ymarferol

[10%]

Tasg arbrofol (30 marc, 3 awr)

Tasg dulliau ymarferol a dadansoddiad (30 marc, 1 awr)

CERDD

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

AS: Perfformio Cyfansoddi a Gwerthuso

Safon Uwch: Perfformio Cyfansoddi a Gwerthuso



Sut fyddaf yn dysgu?

Cynhelir y gwersi yn Ysgol David Hughes fel rhan o Gonsortiw Môn ar un brynhawn estynedig.

Beth fyddaf ei angen?

Y gallu i berfformio ar offeryn cerdd neu ganu yn ogystal â'r gallu i ddadansoddi a gwerthfawrogi cerddoriaeth trwy ddilyn sgôr. Y gallu i gyfansoddi a bod yn greadigol gyda cherddoriaeth.

Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Byddwch yn cael eich arholi'n allanol yn y tair elfen uchod.

Pwyntiau UCAS

Mae gradd A mewn Safon Uwch Cerdd yn rhoi 48 o bwyntiau UCAS i chi.

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?

Ar ddiwedd y cwrs, dyma rai o'r llwybrau ar gael:-

- Dilyn cwrs Gradd mewn Cerddoriaeth, Technoleg Cerdd, Peiriannu Sain neu Berfformio.
- Dilyn cwrs Hyfforddiant Athro gydag arbenigedd mewn Cerdd
- Dilyn gyrfa fel Cerddor Proffesiynol

Yn y pen draw, gellir cyflawni graddau a chymwysterau proffesiynol drwy ddilyn unrhyw rai o'r llwybrau yma.

Syniadau Gyrfaol!

Athro/Athrawes Cerdd	Cerddor Proffesiynol	Recordio	Therapydd Cerdd
-------------------------	-------------------------	----------	-----------------

Am wybod mwy?

I ddarganfod mwy am y cwrs hwn, ymwelwch â'r gwefannau canlynol:

[Adran Gerdd YDH](#)

CYFRYNGAU CREADIGOL (Teledu a Ffilm)

(Lefel 3 BTEC Diploma Atodol mewn Cyfryngau Creadigol)

Beth fyddaf yn ei dysgu?

Mae'r Lefel 3 BTEC Diploma Atodol mewn Cyfryngau Creadigol yn cynnwys tair uned graidd a thair uned arbenigol i gwblhau'r cymhwyster.

Unedau craidd:- Technegau cyn-gynhyrchu ar gyfer diwydiannau'r cyfryngau creadigol, Sgiliau cyfathrebu ar gyfer cynhyrchu cyfryngau creadigol, Sgiliau ymchwil ar gyfer y diwydiannau cyfryngau creadigol.

Unedau dewisiadol:- Dealltwriaeth o'r diwydiant Teledu a Ffilm, Technegau golygu Fideo a Ffilm, Technegau camera, Cynhyrchu a chyflwyno yn y diwydiant Teledu a Ffilm, Dealltwriaeth o hysbysebu a Chynhyrchu Fideo Cerddoriaeth.

Sut fyddaf yn dysgu?

Mae'r cwrs yn bartneriaeth rhwng ysgolion uwchradd Arfon, Môn a Choleg Menai, yn cyfateb i un Lefel Uwch (mae astudiaeth am flwyddyn yn rhoi mynediad i Dystysgrif BTEC Lefel 3, sydd yn cyfateb i un UG). Byddwch yn treulio prynhawn estynedig (1.35yp - 5.30yp) yng Ngholeg Menai, safle Llangefni. Byddwch hefyd yn gorfod treulio ychydig o amser bob wythnos yn astudio ar safle adnoddau ar lein Coleg Menai. Bydd eich ysgol yn trefnu cludiant am ddim i chi, i ac o Goleg Menai.

Mae'r cwrs hwn yn gymysgedd o dasgau ymarferol ac ystafell ddosbarth a byddwch yn cael cyfle i baratoi ac ymarfer eich sgiliau cyn i chi gael eich asesu, fel eich bod yn gwybod a deall yr hyn fydd yn rhaid i chi ei wneud.

Beth fyddaf ei angen?

Mae'n hanfodol eich bod yn arddangos diddordeb amlwg yn y diwydiant cyfryngau creadigol ac yn arddangos cymhelliant i ddilyn y cwrs yng Ngholeg Menai ar brynawn estynedig.

Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Dim arholiadau ond byddwch yn cynhyrchu portffolio o waith cwrs a asesir gan eich tiwtor cwrs a'r bwrdd arholi.

Pwyntiau UCAS

Byddai gradd anrhydedd* yn y cwrs Edexcel Lefel 3 BTEC Diploma Atodol yn rhoi 56 o bwyntiau UCAS i chi.

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?

Ar ddiwedd y cwrs hwn, dyma rai o'r llwybrau ar gael:-

Dilyn cymhwyster pellach mewn Cyfryngau Creadigol ar lefel 3 yng Ngholeg Menai, ee BTEC Lefel 3 Diploma neu Ddiploma Estynedig.

Dilyn cwrs Gradd mewn Cyfryngau Creadigol, Technoleg Cerdd, Peiriannu Sain neu Berfformio.

Yn y pen draw, gellir cyflawni graddau a chymwysterau proffesiynol drwy ddilyn unrhyw rai o'r llwybrau yma.

Syniadau Gyrfaol!

Cymhorthydd Cynhyrchu Teledu
Peiriannydd Sain
Dyn/Dynes Camerâu Teledu

Cynlluniwr Gwe
Animeiddiwr 3D
Technegydd cyfryngau
rhyngweithiol

Peiriannydd Recordio
Llwybrau ehangach o fewn
Cyfryngau Creadigol

Eisiau gwybod mwy?

I ddarganfod mwy am y cwrs hwn, ymwelwch â'r wefan ganlynol:

http://www.edexcel.com/quals/nationals_10/media/Pages/default.aspx

Neu cysylltwch â: www.careerswales.com

CYFRYNGAU CREADIGOL (Cynhyrchu Gemau) (Lefel 3 BTEC Diploma Atodol mewn Cyfryngau Creadigol)

Beth fyddaf yn ei dysgu?

Mae'r Lefel 3 BTEC Diploma Atodol mewn Cyfryngau Creadigol yn cynnwys tair uned graidd a thair uned arbenigol i gwblhau'r cymhwyster.

Unedau craidd:- Technegau cyn-gynhyrchu ar gyfer diwydiannau'r cyfryngau creadigol, Sgiliau cyfathrebu ar gyfer cynhyrchu cyfryngau creadigol, Sgiliau ymchwil ar gyfer y diwydiannau cyfryngau creadigol.

Unedau dewisiadol:- Dealltwriaeth o'r diwydiant Gemau Cyfrifiadurol, Modelu ac Animeiddio 3D, Peiriannau Gemau Cyfrifiadurol, Cynllunio Gemau Cyfrifiadurol, Sain ar gyfer Gemau Cyfrifiadurol, Flash ar gyfer Gemau Cyfrifiadurol, Cynllunio Gemau Cyfrifiadurol, Graffeg ddigidol ar gyfer Gemau Cyfrifiadurol.

Sut fyddaf yn dysgu?

Mae'r cwrs yn bartneriaeth rhwng ysgolion uwchradd Arfon, Môn a Choleg Menai, yn cyfateb i un Lefel Uwch (mae astudiaeth am flwyddyn yn rhoi mynediad i Dystysgrif BTEC Lefel 3, sydd yn cyfateb i un UG). Mae'r cyrsiau yma wedi eu cefnogi gan ystod o ddiwydiannau lleol. Byddwch yn treulio prynhawn estynedig (1.35yp - 5.30yp) yng Ngholeg Menai, safle Llangefni. Byddwch hefyd yn gorfod treulio ychydig o amser bob wythnos yn astudio ar safle adnoddau ar lein Coleg Menai. Bydd eich ysgol yn trefnu cludiant am ddim i chi i ac o Goleg Menai. Mae'r cwrs hwn yn gymysgedd o dasgau ymarferol ac ystafell ddosbarth a byddwch yn cael cyfle i baratoi ac ymarfer eich sgiliau cyn i chi gael eich asesu, fel eich bod yn gwybod a deall yr hyn fydd yn rhaid i chi ei wneud.

Beth fyddaf ei angen?

Mae'n hanfodol eich bod yn arddangos diddordeb amlwg yn y diwydiant cyfryngau creadigol ac yn arddangos cymhelliant i ddilyn y cwrs yng Ngholeg Menai ar brynawn estynedig.

Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Dim arholiadau ond byddwch yn cynhyrchu portffolio o waith cwrs a asesir gan eich tiwtor cwrs a'r bwrdd arholi.

Pwyntiau UCAS

Byddai gradd anrhydedd* yn y cwrs Edexcel Lefel 3 BTEC Diploma Atodol yn rhoi 56 o bwyntiau UCAS i chi.

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?

Ar ddiwedd y cwrs hwn, dyma rai o'r llwybrau ar gael:-

Dilyn cymhwyster pellach mewn Cyfryngau Creadigol ar lefel 3 yng Ngholeg Menai, ee BTEC Lefel 3 Diploma neu Ddiploma Estynedig.

Dilyn cwrs Gradd mewn Cyfryngau Creadigol, Technoleg Cerdd, Peiriannu Sain neu Berfformio.

Yn y pen draw, gellir cyflawni graddau a chymwysterau proffesiynol drwy ddilyn unrhyw rai o'r llwybrau yma.

Syniadau Gyrfao!

Cymhorthydd Cynhyrchu Teledu

Peiriannydd Sain

Dyn/Dynes Camerâu Teledu

Cynlluniwr Gwe

Animeiddiwr 3D

Technegydd cyfryngau

rhyngweithiol

Peiriannydd Recordio

Llwybrau ehangach o fewn

Cyfryngau Creadigol

Eisiau gwybod mwy?

I ddarganfod mwy am y cwrs hwn, ymwelwch â'r wefan ganlynol: <http://www.edexcel.com/quals/nationals10/media/Pages/default.aspx>

Neu cysylltwch â: www.careerswales.com

CYMDEITHASEG

Pam astudio Cymdeithaseg?

Yr athronydd Ffrengig **Auguste Comte** (1798-1857) – a elwir yn aml yn “dad cymdeithaseg” – a ddefnyddiodd y term ‘cymdeithaseg’ gyntaf yn 1838 i gyfeirio at astudiaeth wyddonol o gymdeithas.

Cymdeithaseg yw astudiaeth o gymdeithas. Golyga hyn ein bod yn golygu'r holl ddylanwadau arnom sy'n gwneud i ni actio fel y gwnawn. Mae cymdeithaswyr yn ceisio deall ymddygiad dynol, ac i wneud hyn maent hefyd yn ceisio deall sut mae pobl eraill yn effeithio arnom.

Ydych chi erioed wedi meddwl beth yw'r stori lawn y tu ôl i faterion pwysig mewn cymdeithas? Sut fydd y diweithdra y mae llawer o bobl yn ei brofi ar hyn o bryd yn effeithio ar eu bywydau, hyd yn oed ar ôl iddynt ddod o hyd i waith? Pam fod rhai plant yn gwneud yn well yn yr ysgol nag eraill? Pa mor bwysig ydy dosbarth cymdeithasol ar gyfer dysgu? Pam y mae gennym deuluoedd? Pam bob y cyfoethog a'r pwerus weithiau yn medru troseddu heb gosb? A yw'r system cyfiawnder troseddol yn rhagfarnllyd?

Mae cymdeithaseg yn bwnc hynod o ddiddorol i bobl sydd â meddyliau chwilfrydig. Mae cymdeithaseg yn eich hyfforddi i ateb cwestiynau ‘beth’, ‘sut’ a ‘pham’ am gymdeithasau dynol. Mae'n bwnc sy'n cynnig cefndir deallusol cryf i lawer o yrfaeod e.e. ymchwil, gweinyddiaeth, yr heddlu, busnes, addysg, y gwasanaeth iechyd a lles, cysylltiadau cyhoeddus, newyddiaduraeth ac ati.

Rhai pynciau fyddwch chi'n eu trafod:

'Families are nothing other than the idolatry of duty' – Ann Oakley, Cymdeithaswraig Ffeministaidd (1944 -)

'Crime is inevitable and can be functional for society' – Emile Durkheim (1857-1917)

Y Cwrs

AS

Uned 1 -Caffael a Deall Diwylliant (Teuluoedd a Phreswylwyr Tŷ) – arholiad ysgrifenedig 1 awr

Uned 2 -Deall Cymdeithas (Addysg) /Dulliau Ymchwilio – arholiad ysgrifenedig 2 awr

LEFEL A

Uned 3 -Grym a Rheolaeth (Trosedd a Gwriad) – arholiad ysgrifenedig 2 awr

Uned 4 -Anghydraddoldeb Cymdeithasol / Dulliau Ymchwil – arholiad ysgrifenedig 2 awr 15 munud

Crynodeb o'r asesiad

Cewch eich asesu ar bedair uned a arholir yn allanol.

AS Uned 1	15%	U2 Uned 3	25%
AS Uned 2	25%	U2 Uned 4	35%

CYMRAEG (MAMIAITH)

Gall astudio Cymraeg mewn cyfuniad â phynciau eraill arwain at bob math o swyddi neu gyrsiau, e.e. y gyfraith, actio, radio a theledu, gweinyddiaeth, newyddiaduraeth, dysgu, gwasanaeth iechyd, gwaith cymdeithasol.

Mae'r cwrs yn cynnig cyfle i'r myfyrwyr ddod yn hyfedr ym mhob agwedd o'r iaith Gymraeg gan gynnwys llenyddiaeth a'r cyfryngau. Ymdrinnir â'r prif sgiliau sef siarad, gwrando, ysgrifennu a darllen, gan bwysleisio defnyddio'r Gymraeg yn ymarferol yn yr oes hon ac ennyn gwerthfawrogiad o etifeddiaeth Cymru.

Rhennir y fanyleb yn gyfanswm o chwe uned; tair uned Uwch Gyfrannol [Blwyddyn 12] a thair uned Safon Uwch [Blwyddyn 13]

Blwyddyn 12 (Safon Uwch Gyfrannol)

- Uned 1 - Astudio ffilm a drama. [15%]**
Yn yr uned yma astudir y ffilm 'Hedd Wyn' a'r ddrama 'Y Tŵr.' Trafodir yn fanwl agweddau fel y cymeriadau, y plot a'r adeiladwaith yn ogystal â'r iaith a bwriadau'r awdur.
Arholiad llafar. Bydd arholwr allanol yn asesu.
- Uned 2 - Asesiad di-arholiad. [10%]**
Rhaid cwblhau dau ddarn o waith sef un enghraifft o ysgrifennu estynedig (rhaid dewis o restr benodol o ffurfiau) ac un enghraifft o draethawd neu araith sydd yn mynegi barn ar bwnc llog.
Bydd hwn yn asesiad mewnol ond caiff y gwaith ei safoni'n allanol.
- Uned 3 - Defnyddio'r iaith a Barddoniaeth. [15%]**
Arholiad ysgrifenedig (2 awr)
Adran A – Ymarferion cywiro gwallau, esbonio gwallau a llunio brawddegau i gyfleu ystyron geiriau.
Adran B – Cwestiwn traethawd yn deillio o'r cerddi a astudiwyd fel rhan o'r Maes Llafur. Astudir detholiad o gerddi o'r ugeinfed ganrif a'r unfed ganrif ar hugain.

Blwyddyn 13 (Safon Uwch)

- Uned 4 - Y Nofel a Llafaredd. [20%]**
Byddwn yn trafod y nofel 'Dan Gadarn Goncrit' gan Mihangel Morgan. Bydd disgwyl i'r ymgeiswyr allu gwneud cysylltiadau â llenyddiaeth arall a ddarllenwyd.
Arholiad llafar. Bydd arholwr allanol yn asesu.
- Uned 5 - Rhyddiaith yr Oesoedd Canol, yr Hengerdd a'r Cywyddau. [20%]**
Astudir y chwedl 'Branwen Ferch Llŷr' ynghyd â cherddi gan y beirdd Aneirin a Taliesin, a thri chywydd gan Dafydd ap Gwilym.
Arholiad ysgrifenedig (2 awr).
- Uned 6 - Gwerthfawrogi Llenyddiaeth a'r Gymraeg Mewn Cyd-destun. [20%]**
Adran A - gwerthfawrogi rhyddiaith neu farddoniaeth ar ffurf traethawd.
Adran B – ysgrifennu darn mewn ffurf benodol e.e. bwletin newyddion, datganiad i'r wasg, cofnodion cyfarfod, adroddiad i bapur newydd, cyfarwyddiadau, anerchiad.
Arholiad ysgrifenedig (2 awr).



CYMRAEG (AILIAITH)

(Safon Uwch/Uwch Gyfrannol CBAC)

Mae cymhwyster U ac UG mewn Cymraeg ail iaith yn cynnwys 6 uned:

- Ffilm a llafaredd
- Asesiad o waith cwrs
- Defnyddio'r iaith a Barddoniaeth
- Y ddrama a llafaredd
- Y stori fer a thrawsieithu
- Defnyddio iaith a gwerthfawrogi barddoniaeth

Bydd tair gwrs yr wythnos yn cael eu haddysgu yn Ysgol Uwchradd Caergybi.

Yn ystod gwrsi, byddwch yn cael y cyfle i weithio'n annibynnol, fel rhan o grŵp bychan neu fel dosbarth cyfan. Bydd pwyslais ar y tair sgil - siarad, darllen ac ysgrifennu.

Byddwch yn cael cyfle i baratoi ac ymarfer eich sgiliau cyn i chi gael eich asesu, fel eich bod yn gwybod a deall yr hyn fydd yn rhaid i chi ei wneud.

Bydd cyfle i chi hefyd ddefnyddio eich sgiliau cyfrifiadurol i ymchwilio ar gyfer cyflwyniadau llafar neu ysgrifenedig.

Am wybod mwy?

Ewch ar y wefan hon i ddarllen mwy: www.cbac.co.uk

DAEARYDDIAETH

DAEARYDDIAETH LEFEL UG

Uned 1: Tirweddau sy'n newid (Arholiad ysgrifenedig 2 awr, 24% o'r cymhwyster)

Adran A: Naill ai Tirweddau Arfordirol neu Rewlifedig (i'w drafod gyda'r myfyrwyr)

Adran B: Peryglon Tectonig



Uned 2: Lleoedd sy'n Newid (Arholiad ysgrifenedig 1 awr 30 munud, 16% o'r cymhwyster)

Lleoedd sy'n Newid: cymharu dau anheddiad cyferbyniol lleol, ee trefol a gwledig.

Tri chwestiwn ar dechnegau gwaith maes.

Bydd 'na ddau ddiwrnod gwaith maes; un yn Ddaearyddiaeth Ffisegol ac un yn Ddaearyddiaeth Ddynol, fydd yn paratoi ar gyfer yr arholiad Uned 2 yn hytrach na chyflwyno ymchwiliad fel darn o waith cwrs.

DAEARYDDIAETH SAFON UWCH

Uned 3: Systemau Byd-eang a Rheolaeth Fyd-eang (Arholiad ysgrifenedig 2 awr, 24% o'r cymhwyster)

Adran A: Cylchredau Dwr a Charbon (afonydd a chylchred carbon byd-eang)



Adran B: Rheolaeth Fyd-eang: Newid a Heriau (globaleiddio, mudiad a rheoli cefnforoedd y Ddaear a'i llygredd)

Adran C: Heriau'r 21ain Ganrif (Cwestiwn synoptig yn tynnu ar unedau 1, 2 a 3 gyda'r deunydd ffynhonnell a roddir yn yr arholiad.)

Uned 4: Themâu Cyfoes (Arholiad Ysgrifenedig 2 awr, 16% o'r cymhwyster)

Adran A: Peryglon Tectonig

Adran B: dwy thema ddewisol (i'w drafod gyda'r myfyrwyr)



- Ecosystemau
- Twf a Her Economaidd: India neu China neu Ddatblygiad mewn Cyd-destun Affricanaidd
- Heriau a Dilemâu Ynni
- Y Tywydd a'r Hinsawdd

Dau gwestiwn traethawd, un ar bob un o'r themâu a ddewiswyd.

Uned 5: Ymchwiliad annibynnol

Asesiad heb arholiad 3000-4000 gair, 20% o'r cymhwyster.



DRAMA A CHELFYDDYDAU THEATRIG

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Mae'r Cwrs Safon Uwch / Uwch Gyfrannol Drama ac Astudiaethau Theatr yn cynnwys pedair uned orfodol i gwblhau'r cymhwyster.

Unedau'r cwrs:-

Uwch Gyfrannol: DA1 – Gweithdy Perfformio (Perfformir dwy olygfa – gosod a dyfeisiedig gan arbrofi â dulliau ymarferwyr theatr wahanol)

DA2 - Testun mewn perfformiad (Astudiaeth o ddwy ddrama osod o wahanol gyfnodau o safbwynt cymeriadau a llwyfannu)

Yn ychwanegol, ysgrifennir adolygiad o berfformiadau byw.

Uwch: DA3 – Perfformiad ar Thema osod (I gynnwys adolygiad ysgrifenedig o'r gwaith)

DA4 - Testun yn ei gyd-destun (Astudiaeth o ddau lyfr gosod ynghyd ag ystyriaeth o gynlluniau llwyfan)

Sut fyddaf yn dysgu?

Mae'r cwrs yn bartneriaeth rhwng Ysgolion Môn a rhai o ysgolion Arfon. Cynhelir y gwersi ar un prynhawn estynedig. Mae'r cwrs hwn yn gymysgedd o dasgau ymarferol ac ystafell ddosbarth a byddwch yn cael cyfle i baratoi ac ymarfer eich sgiliau cyn i chi gael eich asesu, fel eich bod yn gwybod a deall yr hyn fydd yn rhaid i chi ei wneud.

Beth fyddaf ei angen?

Mae'n hanfodol eich bod yn arddangos diddordeb amlwg yn y Theatr, yn fodlon mynychu teithiau i gyfoethogi'ch profiad o theatr fyw ac yn arddangos cymhellant i ddilyn y cwrs ar brynghawn estynedig.

Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Asesir y cwrs drwy gyfuniad o arholiadau ymarferol ac ysgrifenedig

Pwyntiau UCAS

Gellir ennill 48 o bwyntiau UCAS ar ddiwedd y cwrs.

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?

Mae Safon UG ac Uwch mewn Drama yn cael ei dderbyn gan brifysgolion ar gyfer amrediad eang o gyrsiau gradd. Mae'n darparu sylfaen ardderchog ar gyfer astudiaeth academiaidd bellach yn y Celfyddydau. Mae hefyd yn ased i'r rhai sydd yn dymuno dilyn cyrsiau theatr ac ym myd teledu.

Syniadau Gyrfao!

Unrhyw waith sydd yn ymwneud
â phobl!
Actor
Cyfreithiwr

Therapydd Drama
Athro Drama
Cyflwynydd Teledu
Ymchwilydd

Technegydd/Cynllunydd goleuo
Technegydd/Cynllunydd Sain

FFISEG

Mae Ffiseg yn un o'r tair gwyddor sylfaenol. Mae astudio Ffiseg Safon Uwch yn ddefnyddiol iawn, gan ei fod yn datblygu sgiliau datrys problemau, meddwl yn wrthrychol, a sgiliau dadansoddi. Mae'n rhoi cefndir gwerthfawr i astudiaeth bellach ym mhob agwedd o wyddoniaeth, gan gynnwys Peirianeg, Electroneg, Mathemateg, Technoleg, Pensaerniaeth, Cemeg, Gwyddorau Biolegol a Meddygaeth, Roboteg, a Gwyddoniaeth gyfrifiadurol.

Mae'n angenrheidiol cael gradd dda mewn Gwyddoniaeth Ddwbl neu Ffiseg (TGAU), ac mae astudio Mathemateg Safon Uwch Gyfrannol hefyd yn fanteisiol, ond ddim yn hanfodol.

Y Cwrs

Mae'r cwrs newydd, cyffrous a gynigir gan CBAC yn cynnwys llawer o destunau diddorol, megis Ffiseg Cwantwm, Uwchddargludedd, Deall Laserau a hyd yn oed Seryddiaeth (UG: defnyddio pelydriad i gael dirnadaeth o nodweddion a chyfansoddiad sêr; Safon Uwch: dadansoddi symudiad planedau, sêr a hyd yn oed galaethau, sy'n arwain at y syniad o 'fater tywyll').

Mae CBAC hefyd yn cynnig 4 gwahanol 'opsiwn' bellach (gweler Safon Uwch, Uned 4, isod). Mae hyn yn galluogi'r Adran Ffiseg i deilwra'r cwrs ar gyfer yr ymgeiswyr.

Uwch Gyfrannol (UG)

Uned 1	- Ffiseg Sylfaenol, Cinemateg, Ffiseg Gronynnol a Phelydriad Sêr	UG [50%] Safon Uwch [20%]
Uned 2	- Tonnau a Goleuni, Trydan a chylchedau, Ffiseg Cwantwm a Laserau	UG [50%] Safon Uwch [20%]

Safon Uwch

Uned 3	- Symudiad cylchol, Osgiliadau, Ffiseg Thermol, Ymbelydredd ac Egni Niwclear ($E=mc^2$!)	Safon Uwch [25%]
Uned 4	- Cynwysyddion, Meysydd trydanol a disgyrchol, Orbitau a'r Bydysawd (deddfau Kepler, mater tywyll a phlanedau all-solar), Magnetedd ac Anwythiad + 1 o'r 4 OPSIWN : Ffiseg Feddygol, Ffiseg Chwaraeon, Damcaniaeth Cerrynt Eiledol, Egni a'r amgylchedd.	Safon Uwch [25%]
Uned 5	- Arholiadau ymarferol mewn dwy ran.	Safon Uwch [10%]

Y gobaith yw y bydd y cwrs yn ysbrydoli ac yn annog myfyrwyr i ddarllen yn ehangach na'r maes llafur, yn datblygu sgiliau ymarferol sy'n hanfodol mewn cymaint o feysydd byd gwaith, ac yn rhoi sylfaen gadarn a thrwyadl iddynt ar gyfer y dyfodol.

HANES

Pam astudio hanes?

- Dylech astudio hanes os ydych chi eisiau dysgu sut a pham y mae'r byd a'i bobloedd wedi datblygu i'r hyn ydynt heddiw.
- Mae myfyrwyr hanes yn unigolion crwn sy'n datblygu dealltwriaeth o'r gorffennol a hefyd y presennol.
- Mae hanes yn hyfforddi eich meddwl ac yn eich addysgu sut i feddwl a phrosesu gwybodaeth.
- Oherwydd bod hanes yn rhoi'r arfau i ni ar gyfer dadansoddi ac egluro problemau yn y gorffennol, mae'n arf hanfodol ar gyfer datrys problemau yn y presennol a'r dyfodol.
- **Mae hanes yn eich darparu â'r sgiliau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt.**

Bydd myfyrwyr yn astudio 5 uned.

BLWYDDYN 12 – LEFEL AS:

Uned 1-[20%] Llywodraeth, Chwyldro a Chymdeithas yng Nghymru a Lloegr, c. 1485-1603:

Bydd y cwrs hwn yn cael ei arholi ym Mai/Mehefin 2020. Bydd yr arholiad yn para am 1 awr a 30 munud, a bydd myfyrwyr yn ateb dau gwestiwn ar y topigau a astudiwyd.

Uned 2 -[20%] Yr Almaen: Democratiaeth i Unbennaeth, c.1918 - 1933: Weimar a'i Heriau.

Bydd y cwrs hwn yn cael ei arholi ym Mai/Mehefin 2020. Bydd yr arholiad yn para am 1 awr 45 munud a bydd myfyrwyr yn ateb cwestiynau'n seiliedig ar arfarniad o ffynonellau hanesyddol a dehongliadau o'r Almaen Natsïaidd.

BLWYDDYN 13 –LEFEL A:

Uned 3 - [20%] Y Ganrif Americanaidd c. 1890-1990

Bydd y cwrs hwn yn cael ei arholi ym Mai/Mehefin 2021. Bydd yr arholiad yn para am 1 awr a 45 munud.

Uned 4 - [20%] Yr Almaen: Democratiaeth i Unbennaeth, c.1933-1945: Yr Almaen Natsïaidd.

Bydd y cwrs hwn yn cael ei arholi ym Mai/Mehefin 2021. Bydd yr arholiad yn para am 1 awr a 45 munud.

Uned 5 - [20%] Dehongliad Hanesyddol:

Mae'r cwrs hwn yn Aseiniad Mewnol, ymchwiliad hanesyddol yn codi o astudiaeth drylwyr o dopig penodol y gall y myfyrwyr ei ddewis eu hunain. Rhaid i fyfyrwyr weithio'n annibynnol i gynhyrchu darn estynedig o ysgrifennu o tua 3,000 i 4,000 gair yn seiliedig ar astudiaeth o wahanol ffynonellau. Rhaid i'r Aseiniad Mewnol gael ei deipio, a rhaid iddo gael ei gwblhau erbyn Nadolig 2020.

Syniadau am Swyddi!

Mae haneswyr da yn gwneud cyfreithwyr, gwleidyddion, rheolwyr, newyddiadurwyr, archeolegwyr, dylunwyr gwisgoedd, swyddogion datblygiad economaidd, penseiri, dylunwyr amgueddfeydd ac athrawon da ... a llawer mwy.

Mae'r cwrs yn annog ymgeiswyr i ddatblygu eu gallu i feddwl yn feirniadol, datblygu eu Sgiliau Allweddol a'u gallu i weithio gydag eraill, datrys problemau, dadlau materion a deall proses a natur astudiaeth hanesyddol. Nid yw hanes yn wyddoniaeth union gywir. Mae'n arlliwiau o 'llwyd' yn hytrach nac yn ddu a gwyn. Bydd gofyn i chi ddadansoddi, gwerthuso a dehongli digwyddiadau a'r dystiolaeth sydd ar gael a medru cyrraedd barn drosoch eich hunain. Byddwch yn datblygu'n haneswyr.

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL UG A LEFEL UWCH (DYFARNIAD SENGL)

Beth fyddaf i'n dysgu?

UG

Uned 1 - Hybu Gofal o Safon a Chyfathrebu (arholiad)

Uned 2 - Hybu Iechyd Da. Bydd myfyrwyr yn cynnal ac yn gwerthuso eu gweithgaredd hybu iechyd eu hunain (gwaith cwrs).

U2

Uned 7 - Y prif wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a phlant sy'n cyfarfod anghenion unigol (aseiniad dan reolaeth).

Uned 9 - Gweithio yn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (gwaith cwrs).

Sut fyddaf i'n dysgu?

Mae'r cwrs yn cael ei gynnal yn gyfan gwbl yn yr ysgol. Cewch gymorth gan eich athrawon i ddysgu beth sy'n rhaid i chi wneud ar gyfer yr aseiniadau, a chewch y cyfle i baratoi ar eu cyfer ymlaen llaw. Bydd y gwaith yn golygu ymchwiliadau personol yn ogystal â gwaith dosbarth a thrafodaeth.

Beth fyddaf i angen?

Rhaid i chi gael diddordeb mewn materion iechyd a bod yn barod i weithio ar eich pen eich hunan gyda'r ymrwymiad i gyfarfod terfynau amser. Mae'r gydran gwaith cwrs yn bwysig iawn ac mae'n hanfodol bod gennych y gallu i ysgrifennu'n glir naill ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Sut fyddaf i'n cael fy asesu?

Cewch eich asesu ar gyfer yr UG trwy arholiad (40%), gwaith cwrs (60%). Ar gyfer y gydran A2 cewch eich asesu trwy arholiad (20%), gwaith cwrs (60%) ac aseiniad dan reolaeth a fydd yn cael ei wneud dan arolygaeth yn yr ysgol ac mewn cyfnod o amser penodedig (20%).

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs yma?

Wedi ennill eich lefel A gallech astudio cyrsiau'n ymwneud ag iechyd neu ofal cymdeithasol mewn Prifysgol neu goleg e.e. astudiaethau iechyd neu therapi galwedigaethol. Mae nifer fawr hefyd yn mynd ymlaen i weithio yn y maes Addysg fel athrawon a chymorthyddion. Mae'n bosibl hefyd ymlaen i ennill cymwysterau yn y gwaith drwy wneud prentisiaeth mewn Gofal Cymdeithasol.

Syniadau am Swyddi!

- Nyrso
- Gwaith cymdeithasol
- Parafeddyg
- Therapi galwedigaethol
- Ffisiotherapi
- Gweithio gyda phlant

Eisiau gwybod mwy?

Dewch i weld Mrs Bracegirdle yn ystafell 115 am fwy o fanylion.

IEITHOEDD MODERN

FFRANGEG UG/A



Mae'r fanyleb TAG UG a Safon Uwch hon yn cynnig cipolwg cyfoethog a chynhwysfawr i ddysgwyr ar ffabrig cymdeithasol a diwylliant gwleidyddol, deallusol ac artistig y gwledydd a'r cymunedau lle mae Ffrangeg yn cael ei siarad.

Mae cynnwys y fanyleb yn ymdrin â dau brif faes o ddiddordeb:

i. materion a thueddiadau cymdeithasol

ii. diwylliant gwleidyddol, deallusol ac artistig.

O dan y ddau faes hyn o ddiddordeb dewiswyd pedair thema i gynnig profiad dysgu helaeth a pherthnasol i ddysgwyr. Caiff y pedair thema hyn yn eu tro eu rhannu'n is-themâu.

Maes o ddiddordeb (i) Materion a thueddiadau cymdeithasol	Maes o ddiddordeb (ii) Diwylliant gwleidyddol, deallusol ac artistig
<p>Thema 1: (UG) Byw fel person ifanc mewn cymdeithas Ffrangeg ei hiaith</p> <ul style="list-style-type: none"> Strwythurau teuluol, gwerthoedd traddodiadol a modern, cyfeillgarwch / perthnasoedd Tueddiadau, materion a hunaniaeth bersonol ymysg yr ifanc Cyfleoedd mewn addysg a chyflogaeth 	<p>Thema 2: (UG) Deall y byd Ffrangeg ei iaith</p> <ul style="list-style-type: none"> Diwylliant a threftadaeth ranbarthol yn Ffrainc ac mewn gwledydd a chymunedau Ffrangeg eu hiaith Llenyddiaeth, celfyddyd, ffilm a cherddoriaeth yn y byd Ffrangeg ei iaith
<p>Thema 3: (Safon Uwch) Amrywiaeth a gwahaniaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> Mudo ac integreiddio Hunaniaeth ddiwylliannol ac ymleiddio Cyfoethogi diwylliannol a dathlu gwahaniaeth Gwahaniaethu ac amrywiaeth 	<p>Thema 4: (Safon Uwch) Ffrainc 1940-1950: Y Goresgyniad a'r blynyddoedd wedi'r rhyfel</p> <ul style="list-style-type: none"> fis Mehefin 1940 tan fis Mai 1945(goresgyniad, rhyddid a diwedd yr Ail Ryfel Byd) Bywyd yn Ffrainc dan Oresgyniad a'r dimensiwn diwylliannol (théâtre, cinéma, littérature) 1945-1950: ailadeiladu ac ailstrwythuro Ôl-ffeithiau ar gyfer Ffrainc heddiw

UG (2 uned)

Uned 1 (UG): Siarad – Asesiad Di-arholiad: 12-15 munud (ynghyd ag amser paratoi ychwanegol o 15 munud)

12% o'r cymhwyster

48 marc

Tasg 1 - Dadlau safbwynt yn seiliedig ar gerdyn ysgogi ysgrifenedig (5-6 munud)

Tasg 2 - Trafodaeth yn seiliedig ar ail gerdyn ysgogi ysgrifenedig (7-9 munud)

Uned 2 (UG): Gwrando, darllen, cyfieithu ac ymateb beirniadol ysgrifenedig

Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 30 munud

28% o'r cymhwyster

84 marc

Adran A: Gwrando

Adran B: Darllen

Adran C: Cyfieithu – o'r Ffrangeg i'r Gymraeg/Saesneg

Adran D: Ymateb beirniadol ysgrifenedig

Safon Uwch (yr uchod a 3 uned arall)

Uned 3 (U2): Siarad - Asesiad di-arholiad: 11-12 munud

18% o'r cymhwyster

72 marc

Prosiect Ymchwil Annibynnol

(a) Cyflwyno project ymchwil annibynnol (2 funud)

(b) Trafodaeth ar gynnwys y project ymchwil annibynnol (9-10 munud)

Uned 4 (U2): Gwrando, darllen a chyfieithu

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 45 munud

30% o'r cymhwyster

100 marc

Adran A: Gwrando

Adran B: Darllen

Adran C: Cyfieithu – o'r Gymraeg/Saesneg i'r Ffrangeg

Uned 5 (U2): Ymateb beirniadol a dadansoddol ysgrifenedig

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud

12% o'r cymhwyster

40 marc

Un cwestiwn traethawd – yn seiliedig ar astudio **un** gwaith llenyddol oddi ar y rhestr osod.

IEITHOEDD MODERN

ALMAENEG UG/A



Mae'r fanyleb TAG UG a Safon Uwch hon yn cynnig cipolwg cyfoethog a chynhwysfawr i ddysgwyr ar ffrabrig cymdeithasol a diwylliant gwleidyddol, deallusol ac artistig y gwledydd a'r cymunedau lle mae Almaeneg yn cael ei siarad.

Mae cynnwys y fanyleb yn ymdrin â dau brif faes o ddiddordeb:

i. materion a thuenniadau cymdeithasol

ii. diwylliant gwleidyddol, deallusol ac artistig.

O dan y ddau faes hyn o ddiddordeb dewiswyd pedair thema i gynnig profiad dysgu helaeth a pherthnasol i ddysgwyr. Caiff y pedair thema hyn yn eu tro eu rhannu'n is-themâu.

Maes o ddiddordeb (i) Materion a thuenniadau cymdeithasol	Maes o ddiddordeb (ii) Diwylliant gwleidyddol, deallusol ac artistig
Thema 1: (UG) Byw fel person ifanc mewn cymdeithas Almaeneg ei hiaith <ul style="list-style-type: none">• Strwythurau teuluol, gwerthoedd traddodiadol a modern, cyfeillgarwch / perthnasoedd• Tuenniadau, materion a hunaniaeth bersonol ymysg yr ifanc• Cyfleoedd mewn addysg a chyflogaeth	Thema 2: (UG) Deall y byd Almaeneg ei iaith <ul style="list-style-type: none">• Diwylliant a threftadaeth ranbarthol yn yr Almaen ac mewn gwledydd a chymunedau Almaeneg eu hiaith• Llenyddiaeth, celfyddyd, ffilm a cherddoriaeth yn y byd Almaeneg ei iaith
Thema 3: (Safon Uwch) Amrywiaeth a gwahaniaeth <ul style="list-style-type: none">• Mudo ac integreiddio• Hunaniaeth ddiwylliannol ac ymleiddio• Cyfoethogi diwylliannol a dathlu gwahaniaeth• Gwahaniaethu ac amrywiaeth	Thema 4: (Safon Uwch) Creu'r Almaen Fodern: 1989 ymlaen <ul style="list-style-type: none">• Y broses ailuno gychwynnol a dilynol• Cydlyniant cymdeithasol yn yr Almaen heddiw• Mudiadau artistig a gwleidyddol• Effaith economaidd yr Almaen unedig

UG (2 uned)

Uned 1 (UG): Siarad – Aseiad Di-arholiad: 12-15 munud (ynghyd ag amser paratoi ychwanegol o 15 munud)

12% o'r cymhwyster 48 marc

Tasg 1 - Dadlau safbwynt yn seiliedig ar gerdyn ysgogi ysgrifenedig (5-6 munud)

Tasg 2 - Trafodaeth yn seiliedig ar ail gerdyn ysgogi ysgrifenedig (7-9 munud)

Uned 2 (UG): Gwrando, darllen, cyfieithu ac ymateb beirniadol ysgrifenedig

Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 30 munud

28% o'r cymhwyster 84 marc

Adran A: Gwrando

Adran B: Darllen

Adran C: Cyfieithu – o'r Almaeneg i'r Gymraeg/Saesneg

Adran D: Ymateb beirniadol ysgrifenedig

Safon Uwch (yr uchod a 3 uned arall)

Uned 3 (U2): Siarad - Aseiad di-arholiad: 11-12 munud

18% o'r cymhwyster 72 marc

Prosiect Ymchwil Annibynnol

(a) Cyflwyno project ymchwil annibynnol (2 funud)

(b) Trafodaeth ar gynnwys y project ymchwil annibynnol (9-10 munud)

Uned 4 (U2): Gwrando, darllen a chyfieithu

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 45 munud

30% o'r cymhwyster 100 marc

Adran A: Gwrando

Adran B: Darllen

Adran C: Cyfieithu – o'r Gymraeg/Saesneg i'r Almaeneg

Uned 5 (U2): Ymateb beirniadol a dadansoddol ysgrifenedig

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud

12% o'r cymhwyster 40 marc

Un cwestiwn traethawd – yn seiliedig ar astudio **un** gwaith llenyddol oddi ar y rhestr osod.

MATHEMATEG

Cwrs UG a Safon Uwch

Mae'r cyrsiau Uwch Gyfrannol a Safon Uwch yn dilyn manyleb CBAC.

Mae'r cwrs yn cynnwys pedwar uned; dwy uned ym Mlwyddyn 12 (Lefel UG) a dwy uned bellach ym Mlwyddyn 13 (Lefel U2).

UG Uned 1: Mathemateg Bur A: Arholiad ysgrifenedig, 2 awr 30 munud, 120 marc [25%]
Caniateir defnyddio cyfrifiannell yn yr arholiad hwn.

UG Uned 2: Mathemateg Gymhwysol A: Arholiad ysgrifenedig, 1 awr 45 munud, 75 marc [15%]
Mae dwy adran i'r papur:
Adran A: Ystadegaeth (40 marc)
Adran B: Mecaneg (35 marc)
Caniateir defnyddio cyfrifiannell yn yr arholiad hwn.

U2 Uned 3: Mathemateg Bur B: Arholiad ysgrifenedig, 2 awr 30 munud, 120 marc [35%]
Caniateir defnyddio cyfrifiannell yn yr arholiad hwn.

U2 Uned 4: Mathemateg Gymhwysol B: Arholiad ysgrifenedig, 1 awr 45 munud, 80 marc [25%]
Mae dwy adran i'r papur:
Adran A: Ystadegaeth (40 marc)
Adran B: Hafaliadau Differol a Mecaneg (40 marc)
Caniateir defnyddio cyfrifiannell yn yr arholiad hwn.

MATHEMATEG BELLACH

UG Uned 1: Mathemateg Bur Bellach A: Arholiad ysgrifenedig, 1 awr 30 munud, 70 marc [13.3%]
Caniateir defnyddio cyfrifiannell yn yr arholiad hwn.

UG Uned 2: Ystadegaeth Bellach A: Arholiad ysgrifenedig, 1 awr 30 munud, 70 marc [13.3%]
Caniateir defnyddio cyfrifiannell yn yr arholiad hwn.

UG Uned 3: Mecaneg Bellach A: Arholiad ysgrifenedig, 1 awr 30 munud, 70 marc [13.3%]
Caniateir defnyddio cyfrifiannell yn yr arholiad hwn.

Safon Uwch (yr uchod ynghyd â 2 uned bellach: uned 4 ac unai Uned 5 neu Uned 6)

U2 Uned 4: Mathemateg Bur Bellach B: Arholiad ysgrifenedig, 2 awr 30 munud, 120 marc [35%]
Mae'r uned hon yn **orfodol**. Caniateir defnyddio cyfrifiannell yn yr arholiad hwn.

Bydd dysgwyr yn sefyll **unai** Uned 5 **neu** Uned 6:

U2 Uned 5: Ystadegaeth Bellach B: Arholiad ysgrifenedig, 1 awr 45 munud, 80 marc [25%]
Caniateir defnyddio cyfrifiannell yn yr arholiad hwn.

U2 Uned 6: Mecaneg Bellach B: Arholiad ysgrifenedig, 1 awr 45 munud, 80 marc [25%]
Caniateir defnyddio cyfrifiannell yn yr arholiad hwn.

Mae gradd uchel mewn TGAU, **isafswm gradd 'B'** yn yr haen uwch yn hanfodol i ddilyn cwrs Mathemateg Lefel A a gradd TGAU, **isafswm gradd 'A'** i ddilyn cwrs Mathemateg Bellach. Mae Mathemateg yn gwrs trwm sy'n gofyn am lawer o astudio unigol, sy'n golygu bod yn rhaid i fyfyrwyr feddu ar y gallu a'r agwedd gywir ar gyfer y gwaith.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Mrs Tasha Allsup Jones, Pennaeth yr Adran Fathemateg.

PEIRIANNEG FECANYDDOL (Lefel 3 BTEC Diploma Atodol mewn Peirianeg)

Beth fyddaf yn ei dysgu?

Bydd y cymhwyster yn cynnwys 6 uned, wedi eu dewis o blith banc o unedau Gorfodol a Dewisol.

Bydd unedau gorfodol yn cael eu cynnwys sef: Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle Peirianeg, Lluniadu Peirianeg ar gyfer Technegwyr, Egwyddorion a Chymwysiadau Mecanyddol. Mae'r rhain yn gyflwyniad cyffredinol i beirianeg ac yn cyflwyno'r sylfeini ar gyfer cymhwyso egwyddorion peirianeg.

Bydd unedau dewisol yn cael eu dewis ar y cyd rhwng ysgolion, diwydiannau lleol a Choleg Menai. Unedau y bydd myfyrwyr yn cyflawni yw: Dylunio ar gyfer Technegwyr, Rheolaeth Rifol o beiriannau trwy Gyfrifiadur, Gosod a Phrofi defnydd o Beiriannau Prosesu Eilaidd, Gweithgynhyrchu trwy Gymorth Cyfrifiadur.

Sut fyddaf yn dysgu?

Mae'r cwrs yn bartneriaeth rhwng ysgolion uwchradd Arfon, Môn a Choleg Menai, yn cyfateb i un Lefel A (mae astudiaeth am flwyddyn yn rhoi mynediad i Dystysgrif BTEC Lefel 3, sydd yn cyfateb i un UG). Mae'r cyrsiau yma wedi eu cefnogi gan ystod o ddiwydiannau lleol. Byddwch yn treulio prynhawn estynedig (1.20yp - 5.15yp) yng Ngholeg Menai, safle Llangefni. Byddwch hefyd yn gorfod treulio ychydig o amser bob wythnos yn astudio ar safle adnoddau ar lein Coleg Menai. Yn ogystal, trefnir ymweliadau safle/profiad gyda phrif gyflogwyr lleol. Bydd eich ysgol yn trefnu cludiant am ddim i chi i ac o Goleg Menai.

Mae'r cwrs hwn yn gymysgedd o dasgau ymarferol ac ystafell ddosbarth a byddwch yn cael cyfle i baratol ac ymarfer eich sgiliau cyn i chi gael eich asesu, fel eich bod yn gwybod a deall yr hyn fydd yn rhaid i chi ei wneud.

Beth fyddaf ei angen?

Bydd angen oleiaf gradd C mewn Mathemateg. Bydd hi'n ofynnol i fyfyrwyr wisgo Offer Amddiffynnol Personol (OAP) tra yn y gweithdai, (ee esgidiau diogelwch ac oferôls) a ddarperir gan Goleg Menai, a hefyd arddangos cymhelliant i ddilyn y cwrs yng Ngholeg Menai ar brynawn estynedig.

Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Byddwch yn cynhyrchu portffolio o waith cwrs a asesir gan eich tiwtor cwrs a'r bwrdd arholi.

Pwyntiau UCAS

Byddai gradd Anrhydedd* yn y Lefel 3 BTEC Diploma Atodol yn rhoi 56 o bwyntiau UCAS i chi.

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?

Ar ddiwedd y cwrs hwn, dyma rai o'r llwybrau ar gael:-

Dilyn cymhwyster pellach mewn Peirianeg ar lefel 3 yng Ngholeg Menai, ee BTEC Lefel 3 Diploma neu Ddiploma Estynedig.

Dilyn cymhwyster DCU/TCU mewn sector perthnasol yng Ngholeg Menai,

ee. DCU Perfformio Gweithrediadau Peirianeg.

Dilyn cwrs Gradd mewn Peirianeg.

Yn y pen draw, gellir cyflawni graddau a chymwysterau proffesiynol drwy ddilyn unrhyw rai o'r llwybrau yma.

Syniadau Gyrfaol!

Peiriannydd Proffesiynol

Arweinydd Tîm Peirianeg

Peiriannydd Dylunio

Am wybod mwy?

I ddarganfod mwy am y cwrs hwn, ymwelwch â'r wefan ganlynol: <http://www.edexcel.com/quals/nationals10/eng/Pages/default.aspx> Neu cysylltwch â: www.careerswales.com

SAESNEG Bwrdd Arholi: CBAC

[Dysgir o 2015, gwobrwyir UG gyntaf yn Haf 2016 a gwobrwyir Lefel Uwch gyntaf yn Haf 2017.]

UG Uned 1: *Jane Eyre* and *Streetcar named Desire*

Rhyddiaith a Drama (dim llyfr)

Arholiad ysgrifenedig: 2 awr

20% o'r cymhwyster

UG Uned 2: Seamus Heney and Owen Sheers

Barddoniaeth Ôl-1900 (llyfr agored, copi glân)

Arholiad ysgrifenedig 1.5 awr

20% o'r cymhwyster

A2 Uned 3: Christina Rossetti

Barddoniaeth Cyn-1900 a Barddoniaeth Anghyfarwydd

Arholiad ysgrifenedig 2 awr

20% o'r cymhwyster

A2 Uned 4: Shakespeare's *Hamlet*

Shakespeare (dim llyfr)

Arholiad ysgrifenedig 1.5 awr

20% o'r cymhwyster

A2 Uned 5: *Atonement* a hunan-ddewisiad y disgybl

Astudiaeth Rhyddiaith

Asesiad di-arholiad

20% o'r cymhwyster

SEICOLEG

Lefel: Uwch Gyfrannol a Safon Uwch

Bwrdd Arholi: CBAC

Pam astudio Seicoleg?

Mae manyleb Lefel A CBAC yn rhoi digon o gyfleoedd i astudio:

- amrywiaeth o ymagweddau seicolegol gan gynnwys rhai esblygiadol, positif a seicodynamig
- darnau arwyddocaol o ymchwil yn ymwneud ag amrywiaeth o safbwyntiau a phynciau
- realiti cymhwysio gwybodaeth seicolegol i sefyllfaoedd pob dydd
- sut y cesglir data seicolegol gan gynnwys y cyfle i wneud eich ymchwil eich hunain

Mae astudio Seicoleg yn cynnig sylfaen addas i astudio Seicoleg neu amrywiaeth o bynciau eraill at lefel gradd (e.e. y gyfraith, addysg, gwyddor feddygol a chymdeithasol, y proffesiwn gofalu, rheolaeth chwaraeon neu fusnes).

Beth yw cynnwys y cwrs?

Mae'r fanyleb yn annog dysgwyr i:

- ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth hanfodol o wahanol ardaloedd o seicoleg a sut maent yn perthnasu â'i gilydd
- datblygu ac arddangos gwerthfawrogiad dwfn o sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth o dulliau gwyddonol mewn seicoleg
- datblygu cymhwysedd a hyder mewn amrywiaeth o sgiliau ymarferol, mathemategol a datrys problemau
- datblygu eu diddordeb mewn a'u brwdfrydedd am seicoleg, gan gynnwys datblygu diddordeb mewn astudiaeth bellach a gyrfaedd yn ymwneud â'r pwnc, a
- deall sut mae cymdeithas yn gwneud penderfyniadau am faterion seicolegol a sut mae seicoleg yn cyfrannu at lwyddiant yr economi a chymdeithas.

Mae Asesu ar gyfer Seicoleg yn digwydd trwy arholiad. Disgwylir i fyfyrwyr ysgrifennu nifer o draethodau a byddant yn cael eu hasesu ar gywirdeb eu cynnwys, ond hefyd ar eu mynegiant, eu hatalnodi a'u defnydd o Saesneg safonol. Mae'n ddymunol i ddysgwyr fod wedi ennill graddau A* - C mewn TGAU, neu hafal, mewn Saesneg, Mathemateg ac/neu'r Gwyddorau cyn dechrau ar y fanyleb hon.

Beth yw strwythur y cwrs?

Uned Asesu	Cynnwys	Amser	Llwythiad	
			% UG	%U
UNED 1 (Blwyddyn 12)	Seicoleg yn y Gorffennol a'r Presennol	1 awr 30m	50%	20%
UNED 2 (Blwyddyn 12)	Ymchwilio Ymddygiadau	1 awr 45m	50%	20%
UNED 3 (Blwyddyn 13)	Goblygiadau yn y Byd Go Iawn	1 awr 30m		40%
UNED 4 (Blwyddyn 13)	Dulliau Ymchwilio Cymhwysol	2 awr 30m		20%



TECHNOLEG CERDD (Lefel 3 BTEC Diploma Atodol mewn Cerdd)

Beth fyddaf yn ei dysgu?

Mae'r Lefel 3 BTEC Diploma Atodol mewn Technoleg Cerdd yn cynnwys tair uned graidd a thair uned arbenigol i gwblhau'r cymhwyster.

Mae'r unedau yn cynnwys **Technegau Recordio, Perfformio, Cyfansoddi Caneuon, Trefnu Cerdd a Cherddoriaeth Gyfrifiadurol.**

Sut fyddaf yn dysgu?

Mae'r cwrs yn bartneriaeth rhwng ysgolion uwchradd Arfon, Môn a Choleg Menai, yn cyfateb i un Lefel Uwch (mae astudiaeth am flwyddyn yn rhoi mynediad i Dystysgrif BTEC Lefel 3, sydd yn cyfateb i un UG). Mae'r cyrsiau yma wedi eu cefnogi gan ystod o ddiwydiannau lleol. Byddwch yn treulio prynhawn estynedig (1.20yp - 5.15yp) yng Ngholeg Menai, safle Bangor. Byddwch hefyd yn gorfod treulio ychydig o amser bob wythnos yn astudio ar safle adnoddau ar lein Coleg Menai. Bydd eich ysgol yn trefnu cludiant am ddim i chi, i ac o Goleg Menai.

Mae'r cwrs hwn yn gymysgedd o dasgau ymarferol ac ystafell ddosbarth a byddwch yn cael cyfle i baratoi ac ymarfer eich sgiliau cyn i chi gael eich asesu, fel eich bod yn gwybod a deall yr hyn fydd yn rhaid i chi ei wneud.

Beth fyddaf ei angen?

Y gallu i berfformio ar offeryn cerdd o unrhyw fath. Diddordeb amlwg mewn maes technoleg cerdd ac yn dangos cymhelliant i ddilyn y cwrs yng Ngholeg Menai ar brynghawn estynedig.

Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Dim arholiadau, ond byddwch yn cynhyrchu portffolio o waith cwrs a asesir gan eich tiwtor cwrs a'r bwrdd arholi.

Pwyntiau UCAS

Mae gradd Anrhydedd* yn y cwrs Edexcel Lefel 3 BTEC Diploma Atodol yn rhoi 56 o bwyntiau UCAS i chi.

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?

Ar ddiwedd y cwrs hwn, dyma rai o'r llwybrau ar gael:-

Dilyn cymhwyster pellach mewn Technoleg Cerdd ar lefel 3 yng Ngholeg Menai, ee BTEC Lefel 3 Diploma neu Ddiploma Estynedig.

Dilyn cwrs Gradd mewn Cerddoriaeth, Technoleg Cerdd, Peiriannu Sain neu Berfformio.

Yn y pen draw, gellir cyflawni graddau a chymwysterau proffesiynol drwy ddilyn unrhyw rai o'r llwybrau yma.

Syniadau Gyrfao!

Technegydd Sain

Perfformiwr

Recordio

Llwybrau ehangach o fewn cerddoriaeth

Am wybod mwy?

I ddarganfod mwy am y cwrs hwn, ymwelwch â'r wefan ganlynol:

<http://www.edexcel.com/quals/nationals10/music/Pages/default.aspx>

Neu cysylltwch â: www.careerswales.com

Y GYFRAITH

"Y Gyfraith yw'r elfen sefydlog mewn cymdeithas ac mae hefyd yn gyfrwng ar gyfer newid. Mae gwybodaeth o'r gyfraith yn dyfnhau ein dealltwriaeth o faterion cyhoeddus. Trwy ei astudio rydym yn datblygu'r ddawn i fynegi ein hunain yn glir, dadlau'n rhesymegol a dadansoddi, yn ogystal â meithrin dealltwriaeth o werthoedd cymdeithasol" - Glanville Williams – 'Learning Law' (Cyfieithiad).

Nod y cwrs yw meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r system gyfreithiol yng Nghymru a Lloegr a thrwy astudiaeth drylwyr o faes penodol o'r gyfraith, meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o gorff o reolau cyfreithiol. Mae'r cwrs hefyd yn ceisio rhoi ymwybyddiaeth feirniadol o gysyniadau a natur y gyfraith. Byddwn hefyd yn ceisio meithrin agwedd ddadansoddol a beirniadol at egwyddorion cyfreithiol drwy drafod dadleuon cyfredol a newidiadau arfaethedig i'r gyfraith.

Bwriedir i astudiaeth o'r gyfraith i Safon Uwch fod yn gwrs cyflawn ynddo'i hun. Mae maes y gyfraith yn un sy'n newid yn barhaus a bydd statudau, achosion, adroddiadau a gwerslyfrau newydd yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd. Bydd gofyn i fyfyrwyr fod yn ymwybodol o'r deunydd perthnasol diweddaraf a darllen papur newydd safonol yn gyson, yn ogystal â chadw ffeil o adroddiadau a llyfr achosion drwy gydol y cwrs.

UG

Papur sylfaenol yw hwn sy'n darparu ymdriniaeth eang o'r gyfraith a'r gyfundrefn gyfreithiol. Y math o bynciau a drafodir yw natur y gyfraith, egwyddorion dedfrydu oedolion a phobl ifanc, addysg bargyfreithwyr a chyfreithwyr, hyfforddiant a rôl, rôl y gweithgor, cyfraith Camwedd ayyb.

Uned 1: Natur y Gyfraith a Systemau Cyfreithiol Cymru a Lloegr–

Arholiad ysgrifenedig - 1 awr 45 munud	80 marc	[25%]
---	----------------	--------------

Uned 2: Cyfraith Camwedd –

Arholiad ysgrifenedig - 1 awr 30 munud	60 marc	[15%]
---	----------------	--------------

Safon Uwch

Mae Safon Uwch yn adeiladu ar y papur sylfaenol ac yn canolbwyntio ar un agwedd o'r gyfraith, sef, **Cyfraith Trosedd a Chyfraith Hawliau Dynol** ble bydd myfyrwyr yn astudio cyfraith trosedd, gan gynnwys dynladdiad a throseddau nad ydynt yn farwol, dyletswydd cyfrinachedd, dirmyg llys, pwerau'r heddlu, rheolau cyfraith trosedd a damcaniaeth, dwyn a lladrad.

Uned 3 – Arfer y Gyfraith Gadarnhaol -

Arholiad ysgrifenedig - 1 awr 45 munud	100 marc	[30%]
---	-----------------	--------------

Uned 4 - Safbwyntiau'r Gyfraith Gadarnhaol –

Arholiad ysgrifenedig – 2 awr	100 marc	[30%]
--------------------------------------	-----------------	--------------

Mae astudio'r Gyfraith fel cymhwyster UG a Lefel A yn cyd-fynd yn addas â llawer o bynciau ac yn arbennig o ddefnyddiol mewn cyfuniad gyda Saesneg, Economeg, Hanes, Cymdeithaseg, Addysg Grefyddol ac Astudiaethau Busnes. Gellir defnyddio sgiliau a ddefnyddir yn y Gyfraith mewn pynciau eraill ac mae'r meysydd pwnc yn aml yn gorgyffwrdd â disgyblaethau eraill.

TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU

Pa bynnag yrfa y byddwch yn ei ddilyn yn y dyfodol, mae'n debyg y bydd gwybodaeth a sgiliau TGCh yn ddefnyddiol neu hyd yn oed yn hanfodol. Nod y cwrs hwn yw sicrhau y byddwch yn gymwys ac yn hyderus wrth ddefnyddio TGCh, gan roi syniad i chi am ddefnydd ac effaith cyfrifiaduron mewn cymdeithas.

UG

IT1 - Systemau Gwybodaeth (Arholiad Ysgrifenedig – 2 awr 15 munud) [24%]

Mae IT1 yn cynnwys pynciau megis:

Data, Gwybodaeth a Gwybodaeth; Gwerth a phwysigrwydd gwybodaeth; Ansawdd yr wybodaeth; Dilysu a gwirio; Cyfyngiadau TGCh; Defnyddio TGCh: Busnes, Addysg, Iechyd, Gartref, Roboteg, Rhynggrwyd pethau amrywio; Cyflwyno Gwybodaeth, Rhwydweithiau; Rhyngwyneb cyfrifiadurol dynol; Materion Cymdeithasol; Systemau Cronfa Ddata

Bydd ymgeiswyr hefyd yn ofynnol i baratoi taenlen ar bwnc penodol, a ddiffinnir gan CBAC, cyn y papur ysgrifenedig. Defnyddir copi caled o'r daenlen yn yr arholiad i ateb cwestiynau yn adran B. Anfonir y copi o'r daenlen gyda'r papur arholiad i'r arholwr.

IT2 - Cyflwyno Gwybodaeth (Asesiad Mewnol) [16%]

Bydd angen ymgymryd â 3 tasg yn IT2, gan gynnwys Bwrdd Gyhoeddi (DTP), dogfennau awtomataidd a thasg amlygrwng.

Safon Uwch (fel yr uchod yn ogystal â 2 uned arall)

IT3 - Defnydd ac Effaith TGCh (Arholiad Ysgrifenedig – 2 awr 30 munud) [36%]

IT3 yn cynnwys pynciau megis:

Rhwydweithiau Cyfrifiadurol, y Rhynggrwyd (Rhannu Gwybodaeth, E-fasnach, Gwasanaethau Cyfrifiaduro Cwmwl, Materion Moesol, Cymdeithasol a Moesegol yn ymwneud â'r Rhynggrwyd); Rhyngwyneb cyfrifiadurol; Gweithio Gyda TGCh; Polisiâu Diogelwch TGCh; Data a phwysigrwydd gwybodaeth; Systemau Cronfa Ddata Perthynol; Rheoli Newid; Systemau Gwybodaeth Rheoli (MIS); Cylchred Oes Datblygu System (SDLC).

IT4 - Cronfeydd Data Perthynol (Asesiad Mewnol) [24%]

Bydd ymgeiswyr yn dadansoddi, dylunio, gweithredu, profi a gwerthuso cronfa ddata perthynol o'u dewis.

Beth fydd ei angen arnaf?

- Diddordeb mewn TGCh
- Meddwl ymchwiliol a chymhelliant i weithio'n annibynnol
- Ymrwymiad i gyflwyno gwaith cwrs ar amser
- Er nad yw'n hanfodol, byddai'n fantais pe bai gennych gyfrifiadur adref

Syniadau gyrfa - Mae sgiliau TGCh yn angenrheidiol ar gyfer y mwyafrif o swyddi

- Dylunydd/Datblygydd Gwe / Gwefeistr
- Datblygydd Gemau Cyfrifiadurol
- Datblygydd Meddalwedd
- Peiriannydd Rhwydwaith
- Dadansoddwr Systemau
- Rheolwr rhwydwaith
- Peilot Drôn
- Rheolwr Cyfryngau Cymdeithasol
- Gweinyddwr Cronfa Ddata
- Technegydd Cefnogi TG
- Gweithredydd Desg Gymorth
- Newyddiadurwr
- Ymchwilydd Cyfryngau
- Clerc Cofnodi Data
- Hyfforddwr TG
- Athro

BTEC LEFEL 3 DIPLOMA ATODOL MEWN ADEILADWAITH YN YR AMGYLCHFYD ADEILEDIG

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Mae'r Lefel 3 BTEC Diploma Atodol mewn Adeiladwaith a'r Amgylchfyd Adeiledig yn cynnwys tair uned graidd a thair uned arbenigol i gwblhau'r cymhwyster.

Unedau craidd:- Iechyd, Diogelwch a Lles mewn Adeiladwaith, Adeiladwaith Cynaliadwy, Mathemateg mewn Adeiladwaith a'r Amgylchedd Adeiledig, Gwyddoniaeth a Deunyddiau mewn Adeiladwaith a'r Amgylchedd Adeiledig. Gall unedau opsiynol gynnwys:- Technoleg a Dylunio Adeiladwaith mewn Adeiladwaith a Pheirianeg Sifil, Technoleg Adeiladu mewn Adeiladwaith.

Sut fyddaf yn dysgu?

Mae'r cwrs yn bartneriaeth rhwng ysgolion uwchradd Arfon, Môn a Choleg Menai ac yn cyfateb i un Lefel A (mae astudiaeth am flwyddyn yn rhoi mynediad i Dystysgrif BTEC lefel 3, sydd yn cyfateb i un UG). Byddwch yn treulio prynhawn estynedig (1.20yp - 5.15yp) yng Ngholeg Menai, safle Llangefni. Byddwch hefyd yn gorfod treulio ychydig o amser bob wythnos yn astudio ar safle adnoddau ar lein Coleg Menai. Bydd eich ysgol yn trefnu cludiant am ddim i chi, i ac o Goleg Menai.

Mae'r cwrs hwn yn gymysgedd o dasgau ymarferol ac ystafell ddosbarth a byddwch yn cael cyfle i baratoi ac ymarfer eich sgiliau cyn i chi gael eich asesu, fel eich bod yn gwybod a deall yr hyn fydd yn rhaid i chi ei wneud.

Beth fyddaf ei angen?

Mae'n hanfodol eich bod yn dangos diddordeb amlwg yn y diwydiant Adeiladwaith a hefyd cymhelliant i ddilyn y cwrs yng Ngholeg Menai ar brynawn estynedig.

Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Dim arholiadau, ond byddwch yn cynhyrchu portffolio o waith cwrs a asesir gan eich tiwtor cwrs a'r bwrdd arholi.

Pwyntiau UCAS

Mae gradd Anrhydedd* yn y Edexcel, Lefel 3 BTEC Diploma Atodol yn rhoi 56 o bwyntiau UCAS i chi.

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?

Ar ddiwedd y cwrs, dyma rai o'r llwybrau ar gael:-

- Dilyn cymhwyster pellach mewn Adeiladwaith a'r Amgylchedd Adeiledig ar lefel 3 yng Ngholeg Menai, ee Diploma neu Ddiploma Estynedig BTEC Lefel 3.
- Dilyn cwrs gradd mewn Gwneud Arolwg o Adeiladau, Peirianeg Sifil, Astudiaethau Adeiladu, Pensaernïaeth neu Dai.

Yn y pen draw, gellir cyflawni graddau a chymwysterau proffesiynol drwy ddilyn unrhyw un o'r llwybrau yma.

Syniadau Gyrfaol!

- Syrfëwr Adeiladu
- Syrfëwr Meintiau
- Technegydd Adeiladwaith
- Peiriannydd Sifil
- Dilysydd Gwaith Adeiladu
- Arolygwr Adeiladu

Am wybod mwy?

I ddarganfod mwy am y cwrs hwn, ymwelwch â'r wefan ganlynol:

www.edexcel.com/quals/nationals10/cbe/Pages/default.aspx

Neu cysylltwch â: www.careerswales.com

CBAC LEFEL 3 TYSTYSGRIF/DIPLOMA MEWN GWYDDONIAETH FEDDYGOL

Beth fyddai'n dysgu?

Er mwyn ennill y Dystysgrif Lefel 3 Gwyddoniaeth Feddygol bydd angen i ddysgwyr gwblhau 3 uned:

1. Iechyd ac afiechyd dynol
2. Technegau mesur ffisiolegol.
3. Dulliau ymchwil Gwyddoniaeth Feddygol.

Er mwyn cyflawni'r Diploma Lefel 3 Gwyddoniaeth Feddygol mae'n ofynnol cwblhau 6 uned, y tair uned uchod a hefyd:

4. Meddyginiaethau a thrin clefydau.
5. Technegau labordy clinigol.
6. Astudiaeth achos meddygol.

Sut fyddai'n dysgu?

Bydd y cwrs yn ceisio:

- rhoi gwybodaeth i ddysgwyr, a dealltwriaeth a'r sgiliau mewn egwyddorion gwyddonol allweddol.
- cynnwys y meysydd pwnc allweddol iechyd, ffisioleg a chlefyd,
- rhoi cyfle i astudio meysydd ffarmacoleg, mesur ffisiolegol, profion clinigol ac ymchwil feddygol.

Beth fyddai'i angen?

Diddordeb amlwg mewn maes Gwyddoniaeth a graddau TGAU da yn y pwnc. Bydd sgiliau mewn Rhifedd/Mathemateg, Llythrennedd/Cymraeg/Saesneg a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn berthnasol.

Sut fyddai'n cael f'asesu?

Unedau 2, 3 a 4 yn cael eu hasesu'n fewnol drwy aseiniadau. Unedau 1, 4 a 6 yn cael eu hasesu'n allanol, 1 a 6 yn arholiad ac uned 5 yn asesiad ar sail prosiect.

Pwyntiau UCAS Mae gradd A* yn rhoi 56 o bwyntiau UCAS i chi, gradd A = 48 pwynt, gradd B = 40 pwynt ayyb.

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?

Mae'r cwrs yn cefnogi cynnydd i addysg uwch neu gyflogaeth mewn meysydd gwyddoniaeth feddygol, megis rolau swyddi mewn gwyddorau ffisiolegol neu wasanaethau labordy clinigol.

Syniadau Gyrfaol!

Meddygaeth Biolegydd	Fferyllydd Gwyddonydd	Cemegydd Ymchwil	Ymchwil pellach neu ddysgu
Ymarferydd Nyrsio	Technegydd labordy	Technegydd Lab Fforensig	Meddygaeth Criminal



CBAC LEFEL UG/SAFON UWCH MEWN CYFRIFIADUREG

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Mae cymhwyster UG a Safon Uwch Cyfrifiadureg CBAC yn annog dysgwyr i ddatblygu'r canlynol:

- Dealltwriaeth o, a'r gallu i gymhwyso, egwyddorion a chysyniadau sylfaenol cyfrifiadureg, gan gynnwys haniaethu, dadelfennu, rhesymeg, algorithmau a chynrychioli data.
- Y gallu i ddadansoddi problemau yn nhermau cyfrifiannu trwy brofiad ymarferol o ddatrys problemau o'r fath, gan gynnwys ysgrifennu rhaglenni i wneud hynny.
- Y gallu i feddwl yn greadigol, arloesol, dadansoddol, rhesymegol a Beirniadol.
- Y gallu i weld perthnasoedd rhwng agweddau gwahanol ar gyfrifiadureg.
- Sgiliau mathemategol.
- Y gallu i fynegi cyfleoedd unigol (moesol), cymdeithasol (moesegol), cyfreithiol a diwylliannol a risgiau technoleg ddigidol.

Sut fyddaf yn dysgu?

Mae'r cwrs yn bartneriaeth rhwng ysgolion uwchradd Arfon a Môn ac yn cyfateb i un Lefel. Byddwch yn treulio prynhawn estynedig (1.25yp - 5.25yp) yn Ysgol Gyfun Llangefni. Bydd eich ysgol yn trefnu cludiant am ddim i chi i ac o Ysgol Gyfun Llangefni.

Mae'r cwrs hwn yn gymysgedd o dasgau ymarferol ac ystafell ddosbarth a byddwch yn cael cyfle i baratoi ac ymarfer eich sgiliau cyn i chi gael eich asesu, fel eich bod yn gwybod a deall yr hyn fydd yn rhaid i chi ei wneud.

Beth fyddaf ei angen?

4 TGAU gradd A*-C i gynnwys C mewn Mathemateg (Uwch), Gwyddoniaeth a Chymraeg/ Saesneg Iaith.

Hefyd arddangos cymhelliant i ddilyn y cwrs yn y Brifysgol ar brynghawn estynedig.

Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Byddwch yn cael ei asesu yn gyson gan eich athro yn ogystal cynhyrchu portffolio o waith cwrs a asesir gan eich athro a'r bwrdd arholi.

Byddwch hefyd yn eistedd arholiad bwrdd arholi yn eich ysgol.

Pwyntiau UCAS

Mae gradd A* yn y Lefel A yn rhoi 56 o bwyntiau UCAS i chi.

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?

Ar ddiwedd y cwrs, dyma rai o'r llwybrau ar gael:-

- Dilyn cwrs Gradd / Meistr mewn Gwyddorau Cyfrifiadureg
- Dilyn Prentisiaeth gyd cyflogwr lleol yn y maes o gynllunio meddalwedd, codio, peirianeg gyfrifiadurol..

Yn y pen draw, gellir cyflawni graddau a chymwysterau proffesiynol drwy ddilyn unrhyw rai o'r llwybrau yma.

Syniadau Gyrfaol!

- Peiriannydd Meddalwedd Proffesiynol
- Arweinydd Tîm Peirianeg Meddalwedd
- Peiriannydd Dylunio Meddalwedd

Am wybod mwy?

I ddarganfod mwy am y cwrs hwn, ymwelwch â'r wefan ganlynol:

<http://www.wjec.co.uk/qualifications/computer-science/computer-science-gce/>

Neu cysylltwch â: www.gyrfacymru.com

CBAC LEFEL 3 TYSTYSGRIF/DIPLOMA MEWN TWRISTIAETH

Beth fyddai'n dysgu?

Er mwyn ennill y Dystysgrif Lefel mewn Twristiaeth bydd angen i ddysgwyr gwblhau 2 uned:

1. Prosiect Twristiaeth y Deyrnas Unedig
2. Cyrchfannau Twristiaeth Byd-Eang.

Er mwyn cyflawni'r Diploma Lefel 3 mewn Twristiaeth mae'n ofynnol cwblhau 4 uned, y ddwy uned uchod a hefyd:

3. Y Diwydiant Twristiaeth Ddynamig.
4. Cynllunio Digwyddiad a Theithlen

Sut fyddai'n dysgu?

Bydd y cwrs yn ceisio:

- cael y dysgwyr i ddeall beth sydd gan y Deyrnas Gyfunol i'w gynnig i dwristiaid domestig a rhai sy'n dod i'r gwledydd hyn
- addysgu dysgwyr i werthfawrogi'r amrediad o gyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael yn y diwydiant twristiaeth
- rhoi'r wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau creiddiol sy'n gysylltiedig â sefydliadau a gweithgareddau twristiaeth i ddysgwyr
- deall y broses o reoli digwyddiadau a natur amserlenni teithio o fewn y DG.

Beth fyddai'i angen?

Diddordeb amlwg mewn maes Twristiaeth a graddau TGAU da mewn pynciau. Bydd sgiliau mewn Rhifedd/Mathemateg, Llythrennedd/Cymraeg/Saesneg a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn berthnasol.

Sut fyddai'n cael f'asesu?

Unedau 1 a 3 yn cael eu hasesu'n allanol, Unedau 2 a 4 yn cael eu hasesu'n fewnol drwy aseiniadau, a'u safoni'n allanol. Pob uned = 25% o'r cymhwyster.

Pwyntiau UCAS Mae gradd A* yn rhoi 56 o bwyntiau UCAS i chi, gradd A = 48 pwynt, gradd B = 40 pwynt ayyb.

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?

Mae'r cwrs yn cefnogi cynnydd i addysg uwch neu gyflogaeth mewn meysydd Twristiaeth, gyda swyddi mewn twristiaeth, rheoli digwyddiadau a lletygarwch.

Syniadau Gyrfaol!

Twristiaeth	Asiant Teithio	Rheolaeth Gwestai	Rheoli Digwyddiadau
Lletygarwch	Trefnydd Gwyliau	Tywyswr Gwyliau	Cynrychiolydd Gwyliau